"Profwch bob peth; deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] MEHEFIN, 1883. [RHIF 22.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Eutychus	121
Myfyrdod	125
Ruyter, y Gwas Ffyddlon	126
Dybacco	128
Bywyd yr Iesu	133
Credu yn Iesu Grist	136
Wrth y Drws	139
Gohebiaethau	139
Manion a Hanesion	141
Marwgofion	143

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, COMMERCIAL PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] MEHEFIN, 1883. [Rhif. 22.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

EUTYCHUS—(Actau xx. 7—12).

Mae yn ofyniad cyffredin Beth fydd dyn y dyfodol? Ond gofyniad rhy anhawdd i'w ateb yw gydag un math o sicrwydd. Allwn ni ddim dywedyd yn sicr beth fydd. A chaniatau 'os' yn y mater, gallwn gasglu os bydd yn debyg yn y dyfodol i'r hyn oedd yn y gorphenol a'r hyn yw yn y presenol, y bydd cryn amrywiaeth yn perthyn iddo. Trwy ganrifoedd y gorphenol yr ydym yn cael dynion yn amrywio yn fawr oddiwrth eu gilydd; yn amrywio yn eu pryd a'u gwedd allanol, yn eu profiadau, yn eu teimladau ac yn eu syniadau. Er pob ymdrech ar ran rhai mewn awdurdod i sicrhau unffurfiaeth meddyliol, ceir dynion o hyd yn gwahaniaethu fwy neu lai oddiwrth eu gilydd. Nid yw y nodwedd yma yn perthyn yn neillduol chwaith i ddyn, tuedda pob bywyd, llysieuaidd yn ogystal ag anifeilaidd, yn nghyfeiriad amrywiaeth. Yn yr un rhyw o lysiau neu o anifeiliaid y mae gwahaniaethau newyddion o hyd yn ymgodi; fel nad oes dwy goeden na dwy ddalen, na dau geffyl na dwy ysgyfarnog yn gwbl yr un peth, ac etto mae yr amrywiaethau yma oll feallai o fewn cylch pennodedig, fel na fyddai anhawsdra fe ddichon i Adda neu un o blant Adda, pe cawsai ddyfod yn ol i'n byd ni heddyw, i benderfynu pa un yw y cwningen neu yr ysgyfarnog, pa un yw y ceirch neu y gwenith, pa un yw dalen yr olewydden neu ddalen y ffigysen, dalen y dderwen neu ddalen yr onen. Mae yn perthyn i'r oll eu nodweddion parhaol (*constants*), a'u nodweddion cyfnewidiol (*variants*); ac mae cynnydd a gwelliant y rhywogaethau trwy yr oesoedd wedi bod yn ddybynol ar y ddwy egwyddor yma. Dywed hen ddiareb mae Angen yw mam Dyfais, a gwir yw hyny; ac er nad ydym ni mewn un modd yn caru anhawsderau bywyd pan yn gorfod ymdrechu â hwy, yr ydym yn

gorfod cyfaddef mai yr anhawsderau ydynt erioed wedi bod yr help goreu i welliant a dadblygiad y rhywogaeth. Cawn fod ein angenion o hyd wrth wraidd ein cynnydd. Yr ydym yn ymdrechu am nas gallwn help oddiwrth hyny.

Trwy yr oesoedd mae dyn wedi bod yn cael ei nodweddu gan ddiffygion, a thrwy yr oesoedd mae y diffygion wedi bod yn rhyfedd o debyg. Yr oedd Abraham a Jacob, a Moses a Dafydd a Solomon yn ddynion mawrion yn eu dydd, ond nid heb eu diffygion; ac nid yw y diffygion hyny yn absenol oddiwrth ddynoliaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ac nid yw Achan a Gasmu a Galio ac Eutychus heb gynnrychiolwyr iddynt yn ein dyddiau ni. Cawn fwy neu lai yr un rhagoriaethau a'r un diffygion, yr un rhinweddau a'r un pechodau yn perthyn i bob oes o'r byd—o leiaf mor bell ag mae hanes yn ei roddi i ni; a'n casgliad yw os felly yr oedd, ac os felly y mae, mae felly y bydd—Achan, neu fel y gelwir ef weithiau, "Achar, yr hwn a flinodd Israel" yn methu cadw ei ddwylaw yn llonydd; Gasmu yn enyn cynen ac ymryson rhwng aelodau yr un gymdeithas, trwy ensyniadau maleisus neu sylwadau annghareding a dialw am danynt; a Galio yn *ddiofal* pa un a fyddo yn gwasanaethu cyfiawnder neu annghyfiawnder, pa un a fyddo yn myned "ar ol" yr Arglwydd neu "ar ol" Baal, pa un a fyddo yn pleidio Toriaeth neu Ryddfrydiaeth, pa un a fyddo yn dal i fyny faner erlidigaeth gyda Newdegate a'r Toriaid neu faner rhyddid, cyfiawnder a chwareu teg *i bawb* gyda Gladstone. Waeth gyda Galio 'r un na'r llall. "Llais y mwyafrif" yw y motto mae ef yn ei garu. Rhaid cael mwy o ryddfrydwr nâ Galio neu Pugh Abermad, neu Holland neu Jones Parry i bleidleisio "cyfiawnder *all round*" —cyfiawnder, hyd y nod *i Bradlaugh!* Cyfiawnder i'n hochr ni, a chwareu i'n hochr ni yw llais Galio pob oes, ac nid fel y dylai fod, cyfiawnder a chwareu teg *i bawb!* Ac am Eutychus ——. Wel, Eutychus yw pwnc y testyn. Mae Eutychus wedi cyrhaedd enwogrwydd, ac fe bery ei enw mewn cof yn barhaus gan lu o ysgolheigion ydynt yn barchus o hono trwy yr oesoedd. Eutychus bach, feddyliaist ti erioed, pan aethost i fyny ar arffed y ffenestr ddellt ar y drydedd lofft, y buasit yn sicrhau i ti dy hun y fath enwogrwydd, ac y buasai miloedd o'th olafiaid mor awyddus i ddysgu y wers oedd genyt ti i'w dysgu iddynt. Ond dyna fel y mae wedi bod.

Onid yw yn rhyfedd, os bydd efelychu yn bod, fod yr "*average man*" fel rheol yn fwy tebyg o efelychu ffaeleddau dyn nâ'i ragoriaethau? Os bydd y "pregethwr mawr" wrth bregethu, yn arfer carthu ei wddf neu besychu, neu roddi rhyw dro anarferol i'w lais, ceir y *student* bach bach o'r Coleg yn union yn gwneuthur yr un peth. Gwna'r *hm* a'r *ha* yn berffaith, heb feddwl na chyrhaeddodd y pregethwr mawr ei fawredd erioed trwy help yr *hm* a'r *ha* yna. Paham na cheisiai y *student* bach bach feddiannu iddo ei hunan rai o wir ragoriaethau y pregethwr mawr? Paham na cheisia feistroli ei syniadau ac efelychu ei ddoniau mawrion? Y paham yn debyg yw am mai *student* bach bach yw, ac am mai yr *hm* a'r *ha* yw yr unig beth mae yn weled o fewn cyrhaedd iddo. Cara'r rhan amlaf o ddynion yr hyn allant ei gael gyda'r lleiaf

o drafferth; ac nid trafferth bach yw cyrhaedd gwir enwogrwydd, nid trafferth bach wnaeth y pregethwr yn bregethwr mawr.

Yr oedd Paul yn bregethwr mawr, ac yr oedd ei allu yn allu i dynu pobl; ond nid trwy gymmeryd i fyny *hm* a *ha* rhyw bregethwr arall y cyrhaeddodd Paul ei fawredd. Yr oedd wedi graddio yn uchel yn ysgol gwaith ac ysgol profiad. Nid oedd wedi eistedd am ddim wrth draed Gamaliel; ac nid am ddim y cyrhaeddodd ei wybodaeth, ei allu, a'i ddylanwad. Mae enw pregethwr mawr yn tynu dynion am fod dynion wedi cael profiad o hono; a phan glywodd y brodyr a'r chwiorydd yn Troas fod Paul ar fedr traddodi anerchiad y noson hono cyn ei ymadawiad, nid yw yn syndod fod yr ystafell fach yn llawn, byddai yn syndod pe byddai heb fod felly. O, na chaem ni heddyw glywed Paul am un awr fechan yn ymresymu ar un o'i hoff bynciau —yn traddodi anerchiad tebyg i'r un i'r Atheniaid (Actau xvii.) neu'r amddiffyniad o flaen Ffelix (Actau xxiv). Fe wyddai Paul sut i draddodi y genadwri, a hyny yn effeithiol. Yr oedd wedi bod yn Troas saith niwrnod. "Ac ar y dydd cyntaf o'r wythnos," yr oedd y diwrnod yn un naturiol i'r pwrpas, "wedi i'r dysgyblion ddyfod yn nghyd i dori bara," hyny yw i gyfranogi o'r swper coffadwriaethol; gwnaent hyn wrth bob tebyg bob Sul; "Paul a ymresymodd â hwynt, ar fedr myned ymaith dranoeth; ac efe a barhaodd yr ymadrodd hyd hanner nos;" ïe, sylwer *hyd hanner nos.* Ond yr oedd y gyfeillach yn felus, ac yr oedd Paul yn cychwyn dranoeth, ac feallai na chawsent ei weled byth mwy. Ond yr oedd y bregeth yn hir hir. Mewn llawer man heddyw ystyrir pregeth o hanner awr neu hyd y nod o ugain munyd yn rhy hir gan rai. Gall hyny o fai fod ar y pregethwr neu gall fod ar y gwrandawr, neu feallai ar yr ystafell. Gallwn fod yn sicr oddiwrth yr hyn a wyddom am Paul nad oedd y bai yn debyg o fod ar y pregethwr; ond fe ddichon fod awyriad yr ystafell yn anmherffaith iawn. Nid oedd wrth bob tebyg ond ystafell mewn tŷ anedd, ac heb un darpariaeth i'r awyr anmhur i ddianc ond trwy y ffenestri dellt, "Ac yr oedd llawer o lampau yn y llofft lle yr oeddynt wedi ymgasglu," nid oedd hyny yn help i iachusrwydd yr ystafell, ac mae y canlyniad yn drist. "A rhyw wr ieuanc," Yn awr, ddarllenydd anwyl, os gweli fod yn dda, dal sylw mai gwr ieuanc yw, a phaid byth mwy gymmeryd hwn yn esgusawd dros gysgu yn y cwrdd. A dal sylw yn mhellach, yr oedd yn eistedd mewn man anhapus—yn y ffenestr, trwy yr hon yr oedd y tawch yn dianc. A dal sylw etto, "efe a syrthiodd mewn trwmgwsg, tra yr oedd Paul yn ymresymu *yn hir.*" Beth wyddai Eutychus druan am y pynciau trymion oeddynt feallai dan sylw gyda Phaul. Dylasai ei fam fod wedi ei osod yn y gwely er ys oriau. Mae cysgaduriaid heddyw yn gallach nag Eutychus yn un peth, yn gymmaint â'u bod yn dewis lle diberygl a dyogel cyn ymollwng i afaelion cwsg, a da hyny. Nid dymunol fyddai darllen yn Yr Ymofynydd am un o honynt hwy ei fod "wedi ei orchfygu gan gwsg, ac a gwympodd i lawr o'r drydedd lofft; ac a gyfodwyd i fyny *yn farw.*" Pe byddai rhaid cofnodi y ffaith, tebyg iawn y byddai yn rhaid i Mr. Golygydd ei osod yn ngholofn y

"Marwgofion." Ni fyddai modd dysgwyl un help oddiwrth Paul dan yr amgylchiadau, a chofnodiad anhapus yn mhob ystyr o'r gair fyddai cofnodiad o'r fath. Ni charai Mr. Gol. ei osod i mewn feallai, ac nid llawer o'r darllenwyr a garent ei ddarllen:

"Ebrill 1, bu farw Mr. Eutychus Jones yn 19eg oed, trwy anffawd tost a ddaeth arno mewn canlyniad iddo gysgu yn y cwrdd," &c.

Ond i fyned yn y blaen â'r hanes, "A Phaul a aeth i waered, ac a syrthiodd arno ef, a chan ei gofleidio, a ddywedodd, Na chyffroed arnoch, canys y mae ei enaid ynddo ef." Tyb rhai yw fod Eutychus wedi marw yn wirioneddol, a bod Paul wedi cyflawnu gwyrth arno; ond y casgliad naturiol yw, dybygwn, ei fod mewn llewyg, a bod Paul wedi cael allan fod ei waed fel y dywedwn ni, yn cerdded. "Y mae ei enaid ynddo ef," fel pe dywedasai, Peidiwch blino yn ormodol, nid yw efe wedi marw, mewn llewyg y mae, ac fe fydd yn *all right* yn y man. Mae Paul yn dosturiol iawn, mae yn cofio feallai fod y bregeth wedi bod yn hir iawn, ac felly nid yw yn beio y dyn ieuanc am gysgu yn y cwrdd. Nid oedd dim eisieu ceryddu Eutychus, os cafodd fyw hyd bedwar ugain oed, nid tebyg iddo gysgu "dan y gair" byth mwy. Dichon hefyd fod yr yspryd yn barod, ond fod y cnawd yn wan. Yr oedd y dygwyddiad yn un anhapus iawn dan yr amgylchiadau, ac yn ddiamheu iddo beri tristwch mawr i'r holl bresenolion. Mae rhyw swyn fodd bynag yn mhresenoldeb Paul; "Ac wedi iddo ddyfod i fyny, a thori bara, a bwyta, ac ymddyddan llawer *hyd doriad y dydd;* felly efe a aeth ymaith. A hwy a ddygasant y llanc yn fyw, *ac a gysurwyd yn ddirfawr.*" Gellir barnu beth ydoedd zel a serch y pregethwr a'i wrandawyr oddiwrth hyd y gwasanaeth; nid fod y gwasanaeth feallai wedi parhau yn ddidor, ond yn hytrach mewn ffurf o ymddyddan, hwy yn gofyn ac yntau yn ateb—a hyny hyd doriad y dydd. Ac wedi hyny y daeth y ffarwel. Gair cynnwysfawr yw y gair ffarwel yma, ond y mae Paul yn gallu tynu llawer o'r chwerwder allan o hwn, felly yr ychwanegir, hwy "a gysurwyd yn ddirfawr."

Chwech adnod yw y rhai dan sylw, ond y maent yn hynod lawn o awgrymiadau. Cynnwysant yr oll a wyddom am Eutychus, ac etto y maent yn ddigon i sicrhau anfarwoldeb iddo. Yr un dygwyddiad hwn, mae wedi achub ei enw rhag syrthio i ebargofiant. Nid oes son yn un man am yr un rhinwedd na'r un ffaeledd arall o'i eiddo. Rhyfedd y gwahaniaeth rhwng y rhai a gofnodent hanes yn yr hen amser a'r rhai a gofnodant hanes yn awr. Ni chofnodir gwendidau dyn yn awr, ond priodolir yn fynych ragoriaethau iddo nad yw erioed wedi eu teilyngu. Pe buasem ni yn fwy tebyg i rai o'n hen deidau, nid wyf yn meddwl llai na chaem ddarllen yn Yr Ymofynydd ambell waith yn mhlith nodweddion ereill yn ddesgrifiadol o'n cyfeillion ymadawedig, y geiriau hyn: "Yr oedd yn arfer cysgu yn y cwrdd!!"

Mai 5ed, 1883. S.

Mae hwnw yn ymollwng i gael ei weled trwy wrthddrych, yr hwn sydd yn caniatau iddo ei hun i syrthio i natur ddrwg.

MYFYRDOD.

(Allan o "Cerddi Cystudd," tud. 136).

Mor 'chydig wyf yn wybod, heb wybod hyny'n iawn—
O'm blaen mae môr diderfyn o wirioneddau'n llawn;
Wyf yma fel fy nhadau yn sefyll ar y lan,
Gan syllu 'mlaen i'r dyfnder, nes methu o'm golwg wan.

Rhyfeddod wrth ryfeddod sy'n aros fyth yn nglŷn,
A harddwch dawdd i harddwch fel lliwiau'r enfys gun;
Ac fel yn nghylch y gorwel y cydia'r nef a'r llawr,
I'r meidrol daw'r anfeidrol o'r tragwyddoldeb mawr.

Fel chwyfiad aden angel ger bron fy llygaid prudd,
Daw weithiau lewyrch dysglaer o'r dwfn bellderau cudd,
Gan wenu ar fy ngobaith fel seren Bethlehem—
Ond O! mae'r niwl o'm hamgylch, a dagrau'n dallu'm trem.

Mae lleisiau pêr yn siarad â mi mewn nefol iaith,
A cheinion ysprydoliaeth yn lloni'm llygaid llaith;
Ond O! mae'r iaith yn uchel a dyeithr oddi draw,
Ac O! mae'r cain ddelweddau yn cilio o flaen fy llaw.

Mae adsain yn fy enaid i'r beraidd ddwyfol lef—
O gudd ddyfnderau'm calon daw geiriau glwys y nef;
Fel plentyn am yr adsain ymchwiliaf am y llais,
Ond nid yw ddim ond adsain, ac ofer ydyw'm cais.

Pa le mae cylch nefolfyd? Ai'n rhywle draw yn mhell?
Neu ynte yn yr ymyl mae haf "paradwys well?"
A yw yr oriau euraidd sy'n gwenu ar ein gwaith,
Yn ffres o'r tragwyddoldeb, neu'n flin gan alltud daith?

Ai nid oes yn yr awel ryw beraidd isel sain,
Sydd megys nodau crwydrol o gân rhyw angel cain?
Ai nid yw llygaid anian yn gwel'd rhyw burach fyd,
Pan mae ei gwrid amliwiog yn derchu ei mirain bryd?

Na dd'weder fod ein daear yn mhell o fangre Duw,
Tra gwelir ei ogoniant yn llenwi ei harddwch byw;
O lygredd dyn daw'r cwmmwl sy'n pylu ein golwg glir,
Rhag gwel'd ei Bresenoldeb yn argyssegru'n tir.

Edrychais ar y nefoedd—edrychais ar y llawr,
A gwelais rwymau cariad yn croesi'r cyfwng mawr;
Ynfydion nid ystyriant, ond Duw nis gad y byd,
A throi a throi mae'r ddaear wrth reol Duw o hyd.

Yn araf daw Trugaredd â'i maith gynlluniau i ben,
Yn araf tyr goleuni trwy lawer niwliog len.
Rhy fawr yw Tragwyddoldeb i'n gwan fesurau ni,
Ond ar bob cwmmwl tywyll daw llewyrch oddi fry.

JOHN OLIVER (1838—1866).

RUYTER, Y GWAS FFYDDLON.

YN Holland, lle'r ymarllwysa y Rhein i'r môr, yr oedd Llyngesydd (*Admiral*) yn byw yn 1666, a ddeallai'r môr gystal ag y dealla Cadlywydd (*General*) y tir. Ei enw oedd Michael Hadrian Ruyter—enw a gedwir mewn coffadwriaeth parchus gyda phob Hollander. Fe'i ganwyd yn Vliessingen yn 1607. Pobl dlodion oedd ei rieni, ac yr oeddynt yn dymuno i'w mab ddysgu rhyw grefft; ond ei awydd ef oedd myned i'r môr a bod yn forwr.

Felly, hwyliodd mewn llong oedd yn myned i Morocco. Yr oedd y marsiandwr yn credu yn yr hen ddywediad fod "Llygad dyn ei hunan yn well nâ gwydrau dyn arall," ac yn arfer gofalu am y llong ei hunan. Nid hir y bu cyn cael allan fod y gwr ieuanc Ruyter, nid yn unig yn ddyn defnyddiol, ond yr hyn sydd yn fwy pwysig, yn ddyn cywir, yn un y gallai ymddiried ynddo. Ac mewn llawer ffordd, dangosodd ei fod yn ymddiried ynddo.

Un tro, pan oedd ffair flynyddol Morocco ar bwys, syrthiodd y marsiandwr yn glaf, mor glaf, fel nad oedd un gobaith y gallai gymmeryd y fordaith i Affrica. Gwnaeth ei benderfyniad: "Nid oes neb ond Ruyter y gallaf ymddiried iddo y llwyth yr wyf ar fedr ei anfon i'r farchnad i Morocco."

Galwodd ef i'w bresenoldeb, a dywedodd: "Michael, chwi welwch fy sefyllfa. Mae yn anmhossibl i mi fyned i Morocco. Mae y clerc yn hen wr. Beth dybiwch chwi ddylwn i wneuthur?"

"Anfonwch am ryw ddyn arall y gellwch ymddiried ynddo, syr."

"Ie'n wir," ebe'r marsiandwr, "ond pwy ga'i ddanfon?"

"Chwi wyddoch chwi hyny," meddai Ruyter, "yn well nag y gallaf fi wybod."

"Mae yn orchwyl pwysig," meddai y marsiandwr.

"Gwn ei fod," meddai Ruyter.

"Clywch!" meddai y marsiandwr. "Mae yn rhaid i chwi gymmeryd y gorchwyl mewn llaw. Rhaid i chwi gymmeryd fy lle i."

Felly y bu. Derbyniodd Ruyter y wisg a'r tal addas i'w swydd a'i sefyllfa. Ymddangosai y morwyr yn syn pan welsant eu cyfaill ieuanc ar y bwrdd fel goruchwyliwr. Ond meddyliasant mai nid ffwl oedd eu meistr, a'i fod wedi dewis y dyn iawn. Cafwyd gwel'd hyny yn fuan iawn. Hwyliodd y llong ymaith, glaniodd yn Morocco, a threfnodd Ruyter ei nwyddau yn y farchnad.

Yr oedd y Bey, neu y tywysog a lywodraethai yn Morocco y pryd hwnw, yn un nad oedd yn cydnabod terfynau i'w ewyllys a'i lywodraeth. Yr oedd yn ystyried meddiannau a bywydau pawb o'i ddeiliaid at ei law i wneuthur fel y mynai â hwynt; yn ogystal ag eiddo pawb a ddeuent i'w wlad i fasnachu. Nid oedd yno nac uniondeb na chyfiawnder. Nid oedd pen neb yn gorphwys yn gadarn iawn rhwng ei ysgwyddau.

Un boreu hyfryd, dyma y Bey ei hunan yn dyfod, gyda gosgordd lluosog o weision, ac yn sefyll o flaen bwthyn Ruyter. Edrychodd ar ddarn o frethyn, un o ddefnydd tra rhagorol, yr hwn oedd yn ei foddloni yn fawr.

"Beth ydyw'r pris?" meddai efe.

Dywedodd Ruyter y pris oedd ei feistr wedi osod arno. Cynnygiodd y Bey yr hanner.

"Nid wyf fi dwyllwr," meddai Ruyter, "yn gofyn am beth gymaint arall ag yw ei werth, fel y gallwyf dderbyn wed'yn yr hanner yr wyf yn ei ofyn. Mae y pris wedi ei nodi. A mwy nâ hyny, nid eiddof fi ydyw. Nid wyf fi ond yn unig gwas fy meistr." Yr oedd hyn oll yn gyfreithlon; ond nid oedd y fath beth â chyfraith yn Morocco. Edrychai pob un mewn braw, ond Ruyter, wrth weled gwyneb digllawn y Bey.

"Onid ydych yn gwybod," meddai y Bey, "fod eich bywyd yn fy llaw?"

"Gwn hyny yn dda, syr," ebai Ruyter; "ond gwn hefyd nad wyf wedi gofyn gormod, a bod genyf ddyledswydd, fel gwas, i ofalu am les fy meistr, heb feddwl gormod am danaf fy hun. Gwnaf hyny hyd fy marw, ac ni chewch y brethyn geiniog yn llai. Gwnewch fel y byddoch yn ewyllysio i ateb gerbron Duw."

Yr oedd y marsiandwyr, pan glywsant y geiriau hyn, yn llawn ofn. "Ffarwel, Ruyter," oedd meddwl rhai o honynt, "welwch chwi ddim haul arall yn codi."

Yr oeddynt yn camsynied. Edrychodd y Bey ar y gwr ieuanc hardd gyda llygaid digllawn, ac yr oedd pawb yn dysgwyl am y gorchymyn "I lawr â'i ben ef! Ond dywedodd: "Yr wyf yn rhoddi i chwi hyd yfory i ystyried. Os na fyddwch wedi newid eich meddwl, gwnewch eich ewyllys."

Yna aeth i ffwrdd. Gosododd Ruyter y brethyn yn dawel iawn yn ei le. "Er mwyn dyn," meddai'r dynion, "rhowch y brethyn iddo. Os tyr eich pen i ffwrdd—ac fe'i gwna, mor sicr a'ch bod yn fyw—yna collir eich bywyd chwi, a nwyddau eich meistr, a'r llong hefyd. A pha beth ddaw o honom? Rhoddwch ef—'dyw ond ychydig—ac achubwch y gweddill a chwi eich hunan."

"Yr wyf yn nwylaw Duw," meddai Ruyter. "Yr hwn nid yw gywir mewn pethau bychain, pa fodd y bydd yn gywir mewn pethau mawrion? Os cyll fy meistr geiniog trwof fi, yna nid wyf fi was ffyddlawn. Ni roddaf i fyny un blewyn."

Dranoeth, yr oedd Ruyter yn sefyll yn y bwthyn. Mae y Bey yn dynesu, ac yn edrych yn sarug iawn arno. Y tu cefn iddo mae un yn

cerdded wedi ei ddilladu mewn gwisg mor goch â'r gwaed, a chanddo gleddyf yn ei law. Mae pobl Morocco yn ei adwaen ac yn ei ochelyd megys tân. Efe yw y dienyddwr cyhoeddus. Safodd y Bey o flaen y bwthyn; a chan edrych yn sarug ar Ruyter, mae yn gwaeddi allan, "A ydych wedi dyfod i un penderfyniad etto?"

"Ydwyf," meddai Ruyter; "Ni roddaf y brethyn am un geiniog yn llai nag a ofynais ddoe. Os ydych yn dewis cymmeryd fy mywyd, cymmerwch ef; ond mi a fyddaf farw gyda chydwybod rydd ac fel gwas ffyddlawn i'w feistr."

Yr oedd yr holl bobl megys yn dal eu hanadl, ac yr oedd y dyn yn y dillad cochion yn edrych ar fin ei gleddyf ac yn gwenu fel cythraul yn ei waith gwaedlyd.—Mae gwyneb y Bey yn cyfnewid, ac yn ddisymwth yn dyfod yn glir ac yn ddysglaer. "Myn barf y Proffwyd," meddai efe (a dyna yw llw uwchaf y Twrc) "yr wyt yn ddyn arderchog. Gwas ffyddlonach ni chyfarfyddais erioed, ac mi ddymunwn ar Dduw fod genyf fi un cyffelyb." Yna trodd at ei weision a dywedodd: "Cymmerwch y Cristion hwn yn gynllun." Wrth Ruyter dywedodd: "Dyro i mi dy law, Gristion. Ti gai fod yn gyfaill i mi." Taflodd bwrs o aur ar y bwrdd a dywedodd, "Ti elli gymmeryd fy ngair. Mae yn gymmaint ag a ofynaist. Gwnaf o'r brethyn wisg anrhydedd fel adgof am dy ffyddlondeb di." Dychwelodd Ruyter i Holland gyda llog (*profits*) mawr; ond ni ddywedodd air am y dygwyddiad wrth ei feistr, yr hwn a glywodd am hyny gyntaf oddiwrth ereill.

Hyn oedd dechreu dyrchafiad Ruyter. Cododd ar ol hyn yn gyflym; ac o'r diwedd, cyrhaeddodd y safle uwchaf, sef i fod yn *admiral*, ac ennillodd lawer buddugoliaeth ar elynion ei wlad.

Oddiwrth hyn, gallwn ddysgu fod llwybr o'r lle iselaf i'r anrhydedd uwchaf, trwy wybodaeth, ffyddlondeb, gonestrwydd, ac ofn Duw. Nid yw y llwybr yn gauedig yn erbyn neb. Yn mlaen, gan hyny, pwy bynag fyno, pwy bynag sydd ganddo galon onest a chywir yn ei fynwes. Oddifry mae Duw yn estyn llaw anweledig i'w gynnorthwyo.

Cyf.

DYBACCO.

Mr. Golygydd,—Wele fi yn myned i ysgrifenu y pedwerydd erthygl ar Dybacco. Wrth fodd rhai, mae gormod eisoes wedi ymddangos; ond beth am danynt os trethir eu hamynedd â phumtheg ar hugain etto ar yr un pwnc, er mwyn dyfod i fyny â rhifedi erthyglau crefydd Eglwys Loegr, "y namyn un deugain," neu ddeugain ond un. Yr wyf o'r farn na fyddwn yn cyfeiliorni, pe dywedwn fod mwy o *ddrwg* mewn dybacco nag sydd o *wrthuni* yn nghrefydd yr Eglwys, ac y mae hyny yn llawer. Felly, esgusoder eich gohebydd am amlder ei erthyglau. Mae yn dipyn o galondid i'r ysgrifenydd i gael ar ddeall

fod y myglyswyr yn dechreu toimlo a gwingo; ac yr ydys yn gobeithio y gwna llawer o blant y caethiwed gydag amser ddrylliò eu rhwymau, ac adfeddiannu eu rhyddid naturiol, wedi goleh eu cyrff a'u dillad, nes y byddont yn hollol rydd oddwrth ddrewi dybacco.

Yr wyf yn barod wedi ceisio gosod gerbron y darllenydd annaturioldeb yr arferiad allan, a'r gost auferthol yr eir iddo, yn unig er mwyn porthi blys. Yr wyf hefyd wedi awgrymu mor esgeulus ac yslifiadd mae'r dybacco ar rai troion yn cael ei weithio. Dywed Johnston fod blas tom moch a geifr ar ryw fathau o ddybacco, ac na chyfrifir hwynt yn waeth o herwydd hyny, ond i'r gwrthwyneb! Yn nesaf, ddarllenydd, beth am y *gwenwyn* sydd mewn dybacco? O herwydd angerddoldeb dy flys, yr wyt yn ymgymmodi â baw o bob math braidd; ond a wnai di ddim dychrynu peth pan ddywedir wrthyt fod yr hyn ag wyt yn ei hoffi mor fawr yn cynnwys gwenwyn o'r fath waethaf; a'th fod, pan yn smocio neu yn cnoi dybacco, yn cario yn dy geg offeryn drwy ba un y mae angeu yn gweithio marwolaeth yn dy gyfanseddiad? Un o ranau elfenol dybacco, ac nu o'r pethau sydd yn ei wneuthur mor gyfoddus a swynol, ond ar yr un pryd mor niweidiol i iechyd, yw yr hyn a elwir *Nicotin*—gwenwyn ychydig, os dim, yn llai nerthol nâ *Prussic acid*. Mae dyferyn ò hono, neu ar awdurdod Dr. Prysdale, mae un ran o ddeg o ronyn (*one tenth of a grain*) yn ddigon i ladd ei o faintioli cyffredin mewn fair mynyd; ac y mae un *cigar* yn cynnwys digon o *Nicotin*, a'i roi yn bur, i ladd dau o ddynion. Y sawl sydd yn smocio caut o ronynau o ddybacco, medd Johnston, neu oddeutu chwarter owns, a *ddiekon* sugno i mewn i'w enau ddau neu ragor o ronynau o wenwyn o'r fath fwyaf marwol. Yn y flwyddyn 1851, yn Ffraine, cafodd un o'r enw Comte de Bocarme ei ddienyddio am wenwyno ei frawd yn nghyfraith a *Nicotin*. Oni ddylai smocwyr bwylle ac ystyried, rhag syrthio o honynt yn ysglyfaeth i'r gwenwyn marwol hwn? Yr *oil* a geir with losgi dybacco yw'r gwenwyn a roddir gan anwariaid ar flaenau eu saethau. Mae hanes am ddynion wedi marw mewn ychydig oriau ar ol llyncu ychydig *snuff* yn ddamweiniol. Meddai Dr. Ritchie, yr oedd brawd bach a chwaer unwaith yn difyru eu hunain wrth chwythu *soap bubbles* a hen bibell ddu eu tad; bu farw y brawd o herwydd llyncu yr *oil* gwenwynllyd oedd ynddi, a bu'r chwaer yn beryglus o glaf. Yn y flwyddyn 1879, meddai R. L. Carpenter yn ei ddarlith, cadwyd trenghelhad ar gorff bachgenyn 11eg oed, yr hwn oedd wedi bod yn smocio y dydd o'r blaen a hen bibell byglw, a'r hwn a fu farw boreu dranoeth mewn canlynnad. Ar yr un awdurdod, gwnaeth dyn yn Paris, wrth garthu ei bib a chyllell, dori un o'i fysedd, yr hyn mewn ychydig oriau a achosodd fflameg (*inflammation*) yn ei law a'i fraich; ac er mwyn achub bywyd, bu raid torri'r aelod ymaith, canys nid oedd un siawns arall. Dywedir fod gwenwyn yn feddyginiaethol. Gwir hyny; ond dylid cynnneryd gofal mawr wrth ei drafod. O herwydd anfedrusrwydd, y mae yn aml wedi lladd yn lle iachau. Dywed Dr. Clay fod sugdrwyth dybacco yn cael ei ddefnyddio gan rai i wella'r crafu a chrach yn y pen, a'i fod ef wedi cael ei alw at blant ag oeddent mewn poenau ofnadwy o herwydd cael eu meddyginiaethu felly,

a'i fod yn cofio am un *case* yn terfynu yn farwol. Dywedir fod rhai milwyr, er mwyn cael gollyngdod o'r fyddin, yn gosod dail dybacco yn mhwll y gesail, yr hyn, mae yn debyg, sydd yn peru gwendid a selni mawr. Y mae math arall o *oil* a geir wrth losgi dybacco fel y gwneir mewn pibau a elwir *empyreumatic oil*, a thebyg i'r un a geir wrth losgi dail bysedd y cwn. Mae hwn yn wenwyn nerthol, ac un dyferyn o hono ar dafod cath a'i gesyd mewn pangau, ac a'i lladd mewn dwy fynyd. Dywedir fod yr Hottentotiaid yn gwybod am dano, ac yn ei ddefnyddio i ladd seirff, trwy osod ychydig o hono ar eu tafodau, ac yna eu bod yn trengu ar unwaith, fel pe yn cael eu lladd gan ergyd trydanol. Wel, meddai rhywun, peth rhyfedd na fyddai pawb sydd yn arfer dybacco mewn unrhyw ddull yn marw cyn pen fawr amser. Fel y canlyn mae'n bod: yn raddol mae ambell i fath o wenwyn yn lladd; a thrachefn, mae mathau o wenwyn i'w cael y gall ac y mae dynion yn cynefino â hwynt yn raddol, ac yn byw yn hen weithiau; ond credwyf y byddent byw yn henach pe yn ymgadw oddiwrthynt. Gall y sawl sydd yn gyfarwydd ag *opium* gymmeryd owns o *laudanum* yn y boreu, tra y gwnai yr wythfed ran o hyny ladd yr annghyfarwydd. Dechreua rhai o'r bwytawyr *opium* yn Twrci trwy gymmeryd dogn o hanner gronyn i ddau o ronynau y dydd, gan chwanegu yn raddol, nes y maent yn gallu cymmeryd chwech ugain o ronynau, ac weithiau ragor. Yr enwog De Quincey, ar ei dystiolaeth ei hun, a aeth o ychydig i ragor, nes o'r diwedd, ei ddogn arferol oedd 170 neu 180 o ddyferynau y dydd. Weithiau, rhedai i fyny mor bell â 300, ac unwaith agos i 700 o ddyferynau. Nid yw hyn, cofier, yn profi nad yw gwenwyn yn wenwyn, ac nad yw'r cyfansoddiad yn cael ei niweidio ganddo.

Heblaw bod yn angeu i lawer, mae dybacco yn ei effeithiau yn dor-eithiog o ddrygau ereill, a da fyddai i ddynion i lwyr ymwrthod ag ef; ond fel mae gwaethaf y modd, mae'r blys atto yn fwyaf cyffredin mor anorchfygadwy â blys at *opium* neu *alcohol*. Ddarllenwyr anwyl, yr ydych oll yn addef eich bod yn gwerthfawrogi eich golygon, ac yn ddiolchgar am danynt. Er hyny i gyd, gwell gan lawer o honoch y bib nà'ch llygaid, bod yn ddeillion yn hytrach na pheidio smocio! Mae yn un o'r ffeithiau mwyaf adnabyddus fod mwg o bob math yn ddrwg i'r golygon, ond yn neillduol mwg dybacco. Mae genym dyst-iolaeth meddygon o enwogrwydd fod yr olaf yn effeithio ar gioedd y llygaid (*optic nerves*), ac yn aml yn achosi dallineb llwyr. Mae math arall o ddallineb a elwir *colour-blindness*, hyny yw, er fod y llygaid yn canfod, nid ydynt yn gallu gwahaniaethu rhwng un lliw â'r llall, yr hyn sydd anffodus iawn, a pheryglus dros ben mewn rhyw amgylch-iadau, sef pan mae'r morwyr yn methu adnabod un goleu oddiwrth y llall yn y goleudy, a'r *signal-men* yn yr un modd ar y rheilffyrdd. Taler sylw yn mhellach i'r hyn a ganlyn:—Dywed Mr. Carpenter yn ei ddar-lith fod boneddigion lawer yn ymgynghori â Mr. Critchett, y meddyg llygaid enwog yn Llundain, a bod hwnw yn dweyd mai y rheswm fod eu golygon yn gwaethygu yw smocio yn annghymedrol. Yr un hefyd yw tystiolaeth Dr. Drysdale. Oddieithr ei bod wedi myned yn rhy

ddiweddar, rhoer heibio mygu yn llwyr, ac yna, daw'r olwg yn well, ac efallai y caiff ei hadfer i'w chyflwr naturiol blaenorol. Ond druan a llawer, gwell ganddynt fyned yn ddeillion am dragywyddoldeb ná pheidio mygu! Mae llawer un yn myned yn gryglyd wrth smocio, a chorn ei wddf fel hen simne yn maron cau i fyny gan barddu, a'i dafod a chig ei ddanedd yn agenog a phoenus. Mae *nicotin* yn cael ei sugno i fewn i'r cyfansoddiad, ac y mae yr holl beiriant yn cael ei anmharu. Pwy bynag sydd yn ewyllysio ysgwirio ei fywyd, y mae dan anfantais i wneuthur hyny, os yw yn smociwr; oblegyd tebyg ei fod yn dyoddef oddiwrth glefyd y galon; ac nid oes un meddyg, oddieithr ei fod yn eithaf digydwybod, a rydd iddo ysgrif-dyst neu *certificate*, yr hyn sydd yn cael ei ofyn gan bob ysgwirfa. Dr. Townson, meddyg i gymdeithasau ysgwirio, a ddywedodd fod y rhan fwyaf o bersonau ag oeddent wedi cael eu gwrthod ganddo ef wedi dwyn arnynt eu hunain glefyd y galon o herwydd smocio i ormodedd. Mae'r ymhenydd hefyd yn dyoddef weithiau, ac yn myned yn afiach dan effeithiau myglys, a'r cylla yn cael ei daflu allan o hwyl, nes methu treulio'r bwyd yn iawn; ac felly'r drws yn cael ei agor i ollwng i mewn i'r *system* afiechyd o lawer math. Pe gwnai dynion roi heibio smocio, a chnoi dybacco, a snuffo yn gyfangwbl, gwnai hyny leihau yn ddirfawr y gwahanol anhwylderau y mae y natur ddynol yn dyoddef oddiwrthynt yn bresenol; ni fyddai ein meddygon yn gorfod gweithio mor galed ddydd a nos, ac ni fyddai yn agos gymmaint o brynu y *patent medicines* sydd yn cael eu *advertiso* yn y newyddiaduron, megys pelenau Holloway, Worsdell, George, Norton, Scott, &c., i lawr neu efallai i'r lan hyd at *Quinine Bitters* Gwilym Evans.

Drachefn, beth am y colledion aml a thrymion trwy dán, yr hwn a achosir yn fynych gan y bib a'r dobacco, a'r mwglysenau, a'r *lucifer matches?* Dichon fod yr hen a'r canol oed fel rheol yn ofalus na byddo un anffawd yn dygwydd; ond y maent yn eu gwaith yn smocio yn rhoi esiampl ddrwg o flaen crytiaid a phlant, y rhai ydynt yn fwy difraw ac esgeulus. Ni waeth pa le i dano'r bib neu'r *cigar*—mewn, allan, yn y gwellt, yn y gwair, yn y gwely, yn y beudy, yn yr ystabl, ar y dafod, &c. Ac nid yn unig eiddo gwerthfawr o bob math sydd yn cael ei ddystrywio trwy dan; ond y mae llawer o fywydau dynol hefyd yn syrthio yn ysglyfaeth i'r un elfen ddifaol! Rhaid smocio pe syrthiai'r nefoedd. a phe elai'r holl fyd ar dán! Wele yn canlyn ryw ychydig enghreifftiau o wirionedd yr hyn a ddywedwyd. Yr wyf yn ddyledus i Mr. Carpenter am y cyfryw. Gwir fod cyflawnder o enghreifftiau yn nes gartref; ond er mwyn peidio dolurio teimladau, gwell ymattal rhag eu cyhoeddi o'r newydd. Gwnaed y darllenydd edrych dros ei gymmydogaeth ei hun, ac yn ol ei wybodaeth ei hun gyflenwi'r diffyg ar y pen hwn. Dywed Dr. Ritchie i dri ar ddeg a deugain o danau gael eu hachosi yn Llundain yn unig yn y flwyddyn 1860, a hyny trwy smocio. Dywed hefyd iddo ragor nag unwaith weled saer coed dan un o orsafau Llundain yn tanio ei bib, ac yn taflu'r fatsen olosgedig i'r *sharings* oedd dan ei draed. Nid oedd y gwr hwnw yn ystyried dim o ganlyniadau dichonadwy ei weithred. Yn y flwydd-

yn 1869, cynnwerwyd pibau a *lucifer matches* allan o logellau deunaw a deugain o weithwyr ar eu gwaith yn mynod i weithfeydd pylor Hounslow, a hyny ond yn rhiwes y flwyddyn, ond mewn un diwrnod! Dau mai hyn yw'r achos o lawer o ffrwydradau. Yn mis Gorphenaf 1881, yn Maradan, Mexico, gwardy pylor perthynol i'r llywodraeth a chwythwyd i fyny, yn ngwyd á lawer o deuau oddiamgylch iddo, o herwydd i fflwc yn ei ddiffoddi, adael i w *cigar* syrthio o'i enau neu o i law. Colloed hefyd dros dringain a deg o ddynion eu bywydau! O bryd bwy gilydd, ceir cwmni, i wedi cael ei dwyn o flaen ynadon, a'u dirwyo neu es carcharu am fyned á u pibau a u tanenau ganddynt i mewn i bythau glo perygl yw. Yr Ffrwydrad Blantyre, Gorphenaf 1879, caf odd wyth ar hugain o ddynion eu ladd; a chan nad beth oedd gwir achos y tryelinen, dywedai yr *Inspector* yn ei adroddiad fod pibau o dybacco hanner eu smoco a *lucifer matches* i'w gweled ar lawr gerllaw cyrff y meirw. Er yn gwybod eu bod yn gweithio mewn peryglgwaredol, eto nen ddoiddal yw dynion! Ie, mae rhai troseiowyr weithau pan dan holad wedi dadlen eu hachos trwy ddweyd en bod yn smoco heb yn wybod iddynt eu hunain. Felly, os gwir hyn, mae hir ymarfer a'r bib yn difeddianna dyn o'r pwysleoedrwyed sydd yn perthyn iddo yn ei gyflwr cynenid!

Caiff yr ordyd son, Mr. Golygydd, ei dweddu a'r ffaith ganlynol, o'i hen yr oedwn i fy hunan yn un o'r llygad dystion. Yn un o dreflydd mwd Cymru, yn amser yr *Assizes* neu'r Sesiwn, yr oedd un o weision y farydd wedi bod yn mwynhad trwy r boreu; a phan ddaeth yr amser i ngor y llys, ch yn fyrbwyll, wedi clywed y waedd, a wanodd ei lin i begell ei bobau, ac a aeth allan o'r tafarn lle yr oedd ef a'i gydweision yn lletya, ac wrth fyned ar hyd yr heol tua'r Town Hall, cyfodai cwmwl o fwg yn awr ac yn y man o ganol y cwmni. O'r diwedd, gwaeddodd rhywun "*Fire*, mae un o weision y farydd ar dan;" ac felly yr oed. Yr oed y tan wedi llosgi drwy'r boced, ac nid hir y bussa y *bucchus ardent* ds newydd cedd am y cyfaill, ac yntau ei hunan hefyd, cyn mynod yn ofw. Wedi difodd y tan, a phob perygl drosodd, edrychai i brawd yn fed hendrad ar yr hafog oedd wedi cael ei wneuthur gan y tan yn ngymmydogaeth gafael ei glun, a'r tan hwnw wedi cael ei achosi gan y bib.

Un erinygl yn chwanegy, Mr. Golygydd, a dyna fi yn ffarwelio á phwnc y dybacco. Wedi gorphen, bydd genyf air neu ddau i'w ddywedyd with y cyfaill a clw ei hun "Un yn 73 oed," a D. ab Evan, **Caerfyrddin, hyny yw, os byddaf byw.**

T. S. Catti.

A llaw ddoiddal hanwn lad, Heb feddwl byth eu gweled;
Ond am ffwydd fyrdd, Cawn y ddae r yn wyrdd,
O'u cynych yn chwyn trwy r wlad, Neu yn ffrwythau inch ac addfed,

BYWYD YR IESU.

Gwers 8.—*Darllener Matt. xii. 1—16; Luc vi. 1—16. Testun, Matt. xii. 11, 12.*

Ar y cyntaf nid oedd gwrthwynebiad agored rhwng yr Iesu a'r Phariseaid. Yr oedd llawer o honynt yn bobl fwyaf difrifol a selog, yn ceisio yn galed i wneyd yr hyn a dybient hwy oedd oreu. Eu bai mwyaf oedd bod yn anfoddlawn i ddysgu oddiwrth un a allai roddi iddynt wirionedd newydd ac uwch am yr hyn sydd iawn. Felly, fe ddaeth yr Iesu, yr hwn a ddysgai efengyl newydd ogoneddus, a'r hwn a dynai ei ysprydoliaeth oddiwrth gymmundeb bywiol â Duw (Luc vi. 12), i'w gwrthwynebu yn fwy ac yn fwy, ac yn rhinwedd ei awdurdod gynnyddol fel proffwyd, yr oedd yn dyfod yn gyflym i fod yn allu pwysig yn eu herbyn. Dechreuodd y Phariseaid, ynte, yn mhob ffordd possibl i edliw pethau yn ei erbyn, a cheisio lladd ei ddylanwad gyda'r bobl. "Paham nag oedd ef a'i ddysgyblion yn ymprydio ar y dyddiau sefydledig, fel yr oeddent hwy yn gwneyd, ac fel yr oedd dysgyblion Ioan Fedyddiwr yn gwneyd?" (ac fel mae Pabyddion ac Uchel Eglwyswyr yn wneyd yn awr). Atebodd yr Iesu fod ympryd defodol fel hen gostrel win a fydd yn sier o gael ei dryllio os tywelltir gwin newydd (ei grefydd newydd ef) iddi. Yn nesaf, yr oedd y Phariseaid yn dal i fyny eu dwylaw mewn dychryn, pan yr oedd yr Iesu yn bwyta gyda phechaduriaid. Atebodd yr Iesu mai ar y cleifion oedd angen meddyg. Wedi'n cawsant afael ar achos cryfach fyth yn ei erbyn. Yr oedd wedi tori y Sabbath. Yr ydym yn gweled rhywfaint o'r teimlad Sabbothol yma yn awr, ond nid yw yn ddim mewn cymhariaeth i'r hyn a fodolai y pryd hwnw. Yr oedd y rheolau mwyaf rhyfedd yn cael eu gosod i lawr gyda golwg ar yr hyn oedd gyfreithlawn a'r hyn nad oedd. Chawsech chwi ddim bwyta wy, os mai ar y Sabbath yr oedd yr iar wedi ei ddodwy. Ar ddechreuad y gwrthryfel Maccabeaidd, rhyw gant a hanner o flynyddau cyn amser Crist, yr oedd cwmpeini mawr o filwyr Iuddewig wedi rhoddi eu hunain i fyny i gael eu lladd heb un gwrthwynebiad o herwydd mai'r dydd Sabbath ydoedd. Yn yr achos hwn sydd gan y Phariseaid yn erbyn yr Iesu, nid yw ei ddysgyblion yn cael eu cyhuddo o ladratta y grawn, oblegyd yr oedd tynu ychydig dywys yn cael ei ganiatau gan y Gyfraith, ond o wneyd rhywfaint o waith, parotoi ymborth ar y Sabbath. Amcan y cyfeiriad at Dafydd yw dangos fod eu gwron mawr cenedlaethol wedi diwallu ei hun ag ymborth mewn ffordd a waherddid gan reolau y deml. Os oedd y weithred yma ac arferion yr offeiriad yn cael eu cyfiawnhau, yna mae'n rhaid fod rhywbeth mwy nâ'r deml a'r rheolau Sabbothol; ac mae'r Iesu yn cyhoeddi yn hyf yr egwyddor fod Mab y Dyn yn Arglwydd y Sabbath, neu fel y mae yn gosod yr egwyddor mewn man arall, "Y Sabbath a wnaed er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y Sabbath."

Achos arall a ddygwyddodd pan yr oedd yr Iesu yn dysgu yn y Synagog. Mae yn amlwg fod ganddo ryw allu i iachau nad ydym ni

ddim yn deall yn gyflawn, er fod galluoedd cyffelyb wedi cael eu dangos gan arweinwyr crefyddol ereill. Gan nad beth am hyny, yr oedd dyn a rhywbeth y mater ar ei fraich yn credu y gallasai'r Iesu ei iachau, gofynodd iddo i'w iachau ar y Sabbath. Darfu i'r Iesu wneyd hyny, er mae y Sabbath ydoedd, a chyfiawnhaodd ei ymddygiad yn ei ddull nerthol ei hun sydd yn dangos mor gadarn oedd ei afael ar egwyddorion sylfaenol crefydd.

Nid yw hwn yn achlysur i fyned i mewn i'r cwestiwn mawr hwnw cyssylltiedig â'r gallu gwyrthiol oedd yn yr Iesu. Y pwnc yn awr yw, yr Iesu yn halogi y Sabbath. Cafodd y Phariseaid eu cyffroi yn fawr gan ymddygiad yr Iesu, a darfu iddynt encilio er mwyn cymmeryd mesurau i ddwyn oddiamgylch ei ddinystr. O'r ochr arall, ymneilldu-odd yr Iesu i ddal cymmundeb â'i Dad nefol, yn nhywyllwch ac unigedd y nos.

Yn ol Luc, darfu i'r Iesu yn union ar ol yr amgylchiad yna ddewis deuddeg o blith ei ddysgyblion, er mwyn ffurfio math o gymdeithas fewnol i fod yn fwy rheolaidd gydag Ef, ac i gael eu hyfforddi yn egwyddorion ei deyrnas. Yn sicr, fe ddarfu i ddewisiad y deuddeg gymmeryd lle ryw adeg yn yr amser yma, er nad yw yn debygol eu bod yn cael eu galw yn apostolion hyd ar ol ei farwolaeth, ac nid yw yn ymddangos fod unrhyw awdurdod wedi cael ei roddi iddynt ar y dysgyblion ereill.

Gofyniadau.

1. Pa fath bobl oedd y Phariseaid? Enwch eu rhinweddau a'u diffygion.
2. Sut ydych yn cyfrif am yr elyniaeth oedd yn dechreu bodoli rhyngddynt â'r Iesu?
3. Crybwyllwch dri neu bedwar o gyhuddiadau a ddygent yn ei erbyn, a'r atebion a wnaed gan yr Iesu.
4. Beth oedd yn gymhwys y trosedd a gyhuddid y dysgyblion o'i gyflawnu yn y cae llafur?
5. Beth ydyw eich barn mewn perthynas i allu gwyrthiol yr Iesu?
6. Pan y gadawodd y ddau barti y synagog, pa beth ddarfu i'r naill a'r llall o honynt wneyd?

Gwers 9.—*Darllener Matth. vi.* 5—15; *vii.* 7—11; *xviii.* 21—35.

Testyn, Matth. vi. 9—13.

Mae yr amgylchiadau a ddesgrifiwyd yn y wers ddiweddaf yn awgrymu y cwestiwn, Pa beth oedd i gynnal yr Iesu i fyny yn ngwyneb gwrthwynebiad oedd yn codi yn ei erbyn? A oedd y cymhorth i ddyfod oddiwrth ryw gorff o bobl difrifol a chyfrifol? Na; yr oedd pawb o'r fath yna yn perthyn i'r Phariseaid neu yn cael eu llywodraethu ganddynt. A oedd rhyw arweinwyr gwleidyddol yn debyg o gymmeryd ei achos i fyny? Na; yr oedd plaid y Saduceaid, oeddent yn rheoli y wladwriaeth Iuddewig, yn hollol fydol eu meddyliau, ac yn farw i bob

dylanwad ysprydol; ac mewn pethynas i'r Rhufeiniaid, a'r rhai a gydymdeimlent â hwy, edrychent i gyd ar bob crefydd gyda difaterwch, a chadwent eu hunain yn barod yn unig i lethu pob symmudiad a ymddangosai yn debyg i wrthryfel yn erbyn eu hawdurdod. Beth oedd yn aros? Tyrfa fawr o bobl gyffredin, y rhai na fynychent y synagog yn rheolaidd, a'r rhai oeddent wedi rhoddi i fyny bob ymgais i gyflawnu holl fanylion y gyfraith; y rhai hyny oeddent bechaduriaid yn ngolwg y Phariseaid, a'r rhai oeddent mewn gwirionedd yn fwy neu lai o bechaduriaid mewn ystyr foesol; a'r rhai hyny, hefyd, nad oeddent yn Israeliaid o gwbl o ran gwaedoliaeth, ond wedi dysgu i gredu yn Nuw Israel, ac yn ddigon boddlawn i fyned i mewn i'w deyrnas, os nad oedd y telerau yn rhy galed iddynt hwy i'w derbyn. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd efengyl yr Iesu yn cael mwyaf o dderbyniad: "Llawer o bobl a'i gwrandawent ef yn ewyllysgar;" ac mor bell ag y gallwn ni gasglu, yn mhlith y rhai hyn y cafodd ef ei ganlynwyr mwyaf ffyddlawn. Dim ond ychydig, er hyny, oeddent yn wir ffyddlawn; yr oedd y lluaws yn anwadal, fel arfer; ac ni fyddai yn beth hawdd i bobl nad oeddent wedi arwain hyd yma fywydau neillduol o dda fyw i fyny i'r cyfiawnder a ofynai yr Iesu oddiwrthynt. Hyd y nod yn mysg ei ddysgyblion ffyddlon, nid oedd un a gyfranogai yn wirioneddol o'i ysbryd Ef, ac a allai roddi rhyw lawer o gymhorth a chyfarwyddyd iddo. Yn mha le, ynte, y gallai'r Iesu edrych am gymhorth? Dim ond at Dduw. Ni osodwyd dyn erioed mewn sefyllfa mor unig; etto, nid oedd yn unig, oblegyd yr oedd y Tad gydag Ef. Yn naturiol, mae hwn yn fater nas gallwn ddysgwyl cael llawer o hyspysrwydd am dano yn yr Efengylau; mae a fyno â'r bywyd mewnol, yr hwn nid oedd yn agored i ymchwiliad y dysgyblion; ac yr oedd yr Iesu yn dewis ymneillduo i fan unig er mwyn dal cymmundeb â Duw; ond etto, mae y nifer o weithiau a phwysigrwydd yr achlysuron, pan mae'r Efengylau yn rhoddi hanes i ni am yr Iesu yn gweddio yn dangos y fath argraff ddwfn yr oedd ei ymddygiad yn y mater yma wedi wneyd ar feddyliau y dysgyblion.

Gallwn fod yn sicr, ynte, fod yr oll a ddywedodd yr Iesu ar y pwnc o weddi yn sylfaenedig ar ei brofiad personol ei hun. Dywed mor hyderus, "Gofynwch a rhoddir i chwi," oblegyd gwyddai ei fod ef wedi derbyn ei hun bob tro y byddai yn gofyn. Nid fod yr hyn a ofynai wedi cael ei roddi iddo bob amser. Yr oedd ei fywyd yn llawn siomedigaethau; ac fe allwn fod yn sicr na chafodd llawer gweddi ddim ei hateb yn y ffordd ag y dymunai efe. Ond yr oedd y weddi yn cael hateb er hyny, ac yr oedd *rhywbeth* yn cael ei dderbyn; ac yr oedd yr Iesu, fel Paul, bob amser yn cael fod gras Duw yn ddigonol ar gyfer ei angen. Dyma beth oedd yn ei amddiffyn ac yn ei gynnal i fyny.

Mae genym, ynte, reswm neillduol dros dalu sylw i'r oll a ddysgodd yr Iesu i'w ddysgyblion mewn perthynas i weddi. Dylem gymmeryd "gweddi yr Arglwydd," nid fel pe byddai ryw swyn cyssegredig yn y geiriau neillduol hyny, ond fel cynllun i bob gweddi. "Fel hyn" y dywedir wrthym ni am weddio. Ac y mae dau o bethau neillduol ag y mae yn rhaid i ni sylwi arnynt. Y peth cyntaf yw, nas gallwn

weddio yn ddidwyll am ddim os nad ydym yn foddlawn gweithio am dano. Mae'n beth ofer i ddweyd "Deled dy deyrnas," os nad ydym yn barod i wneyd ein goreu dros y deyrnas. Nid oes un ystyr mewn deisyf am fara beunyddiol, os nad ydym yn foddlawn i weithio yn onest ac yn ddiwyd am dano. Mewn pob gweddi o'r fath dylem mewn gwirionedd ofyn cymhorth Duw i weithio ei ewyllys ei hun. Yr ail beth yw, nas gallwn ni ddim gobeithio am faddeuant ond fel yr ydym yn maddeu i ereill. Os na faddeuwn ni i'r rhai ag mae'n ddrwg ganddynt eu bod wedi ein niweidio ni, os gwrthodwn ni bob cynnyg anrhydeddus i wneyd cymmod, a defnyddio ein gallu i gadw i lawr ein gelyn sydd wedi syrthio, nid ydym yn y cyflwr meddwl priodol i dderbyn maddeuant Duw. Nis gall ef adael i'w gariad a'i ras lifo yn rhydd i galonau y rhai nad ydynt yn efelychu ei gariad a'i drugaredd ei hun. Nid yw dameg y ddau ddyledwr i gael ei chymmeryd fel yn gosod allan yn gyflawn holl bwnc maddeuant Dwyfol a dynol. Dangosa yn unig mor wael, mor frwnt, ac mor anaddas i dderbyn caredigrwydd yw'r dyn a all ymddwyn at ei gyd-ddyn mor wahanol i'r ffordd yn yr hon y mae ef yn gweddio ar Dduw i ymddwyn tuag ato ef.

Gofyniadau.

1. O ba gyfeiriadau y gallasem ddysgwyl i'r Iesu gael cymhorth yn ei ymdrechion?
2. Dangoswch yr anhawsder iddo gael cymhorth oddiwrth y dosparthiadau hyn.
3. Yn mhlith pa ddosparth y derbyniodd ef fwyaf o gydymdeimlad, a phaham?
4. Yn mha le yr oedd ffynnonell ei nerth yn tarddu?
5. Paham y mae ef yn llefaru gydag awdurdod neillduol ar y pwnc o weddi?
6. Sut mae'r Iesu yn dangos yr angenrheidrwydd o faddeu i ereill cyn y gallwn obeithio cael maddeuant oddiwrth Dduw?

M. S.

CREDU YN IESU GRIST.

Llawer iawn sydd wedi cael ei ddweyd o bryd i bryd gan ddynion doeth a da ar y pwnc yma. Ond mae yr hyn maent wedi ei draethu a'i ysgrifenu arno mor groes i'w gilydd ag sydd bosibl.

Dywed y rhan luosocaf o Gristnogion y wlad hon mai credu yn Iesu Grist, yw credu yn ei Dduwdod a'i aberth iawnol ar bren y groes, er rhyddhau dynion oddiwrth euogrwydd a chanlyniadau dychrynllyd pechod; ac fod ei ddyoddefiadau wedi eu hamcanu i ddylanwadu yn y fath fodd ar y Creawdwr, ag i'w gyfnewid o fod yn llidus i fod yn gariadus.

Ond nid dyma beth ydym ni, fel Undodiaid Cristnogol, yn gredu a'i ddysgu, am ei fod yn ymddangos i ni yn afresymol, anysgrythyrol, ac

annghysson â chymmeriad ein Tad nefol, fel y gosodir ef allan yn llyfr mawr y greadigaeth, ac yn y Gyfrol Santaidd.

Gwnaed y sylwadau canlynol yn ddiweddar iawn, mewn pregeth, gan weinidog presenol yr Undodiaid yn Croydon, sef y Parchedig Mr. Geldart. Perthynai y gwr parchedig a dysgedig yma un amser i Eglwys Sefydledig ein gwlad; ond wrth astudio yr Ysgrythyrau ac arfer ei alluoedd i brofi pethau sydd â gwahaniaeth rhyngddynt, cafodd ei arwain i roddi i fyny ei hen syniadau, a chofleidio y rhai hyny sydd yn myned, yn gyffredin, dan yr enw syniadau rhydd Undodaidd; ac oblegyd ein bod ni wedi cael ein boddio ynddynt, cawn ein tueddu i feddwl y gall ambell ddarllenwr o'r YMOFYNYDD gael ei foddio ynddynt hefyd, a'i gyffroi i'w argraffu ar feddyliau ereill; ac oblegyd hyny, wele hwynt, Mr. Golygydd, at eich gwasanaeth, os ystyriwch eu bod yn addas i ymddangos mewn gwisg Gymreig yn yr YMOFYNYDD.

"Beth yw credu yn yr Iesu? Ac oddiwrth beth y mae y gred neu y ffydd yma yn ein rhyddhau? Ffydd yn Nghrist fel yr wyf fi yn ei deall yw, nid crediniaeth yn nghylch yr Iesu, ond undeb trwy gydymdeimlad ag Ef. Codiad ydyw i'r un safon ysprydol ag a safai Ef arni, addoliad o'r un Duw, gyda'r hwn oedd ef yn dal cymmundeb gwastadol, cymdeithas yn ei addoliad o'r Tad tragwyddol ac annghyfnewidiol, ac amgyffrediad o ystyr bywyd, a gwerth y natur ddynol fel yr edrychai Ef arno. Credu yn Nghrist i mi, yw ei dderbyn fel y cynllun uwchaf o ragoriaeth crefyddol; meithrin yn fy nghalon ei barch Ef, ei dynerwch Ef, ei eirwiredd a'i ymddiried Ef; edrych ar ei esiampl Ef fel cerydd arosol ar fy holl ddiffygion, ac fel ffynnonell ddiysbydd o annogaeth yn mhob tristwch, anobaith, ac amheuaeth. Credu ynddo, fel yr wyf fi yn ei ddeall, yw bwrw fy nghoelbren gydag Ef, taflu fy hunan ar ei obeithion, efelychu ei amynedd a'i hirymaros, ocheneidio, gweddio, ymdrechu am fwynhau ei burdeb, meithrin ei faddeugarwch, a rhoddi fy hunan i fyny i dywysiad ei ysprydd, a meddiannu ei gariad, yr hwn a gynnwysai bawb. Credu yn yr Iesu, fel yr wyf fi yn deall, ydyw meithrin yn fy mynwes ei ymwybodolrwydd nefol Ef a maboliaeth gyda Duw santaidd; i deimlo bob amser bresenoldeb mewnol ysprydd dwyfol cyfiawnder a gwirionedd; i gadw y deml yma yn gyssegredig, mor bell ag y medraf, oddiwrth y meddwl am falais a phob ystaen halogedig. Ond uwchlaw pob peth, ac fel y cam cyntaf i'w gymmeryd, i feddiannu yn ddyddiol ac yn barhaus ffydd yr Iesu, yr hon sydd yn golygu ymddiried diysgog yn naioni a chariad Duw, fel un at yr hwn y mae gan bob plentyn i ddyn, (ni ddywedaf, er gwaethaf, ond yn hytrach ar gyfrif ei wendid a'i angen,) ddyfodiad rhydd ac uniongyrchol bob amser ac yn mhob lle.

Dywedwch wrthyf, efallai, nad yw y fath gredo ddim amgen nâ'r *Theistiaeth** puraf, a mi fyddai yr olaf i'w ambeu. Ond a all *Theistiaeth* ymwrthod â Christ? Onid oedd Crist ei hun yn gorfforiaeth o *Theist-*

---

* Dywed Mr. Geldart, "Ei fod yn credu mai yr enw Cristion yw yr eangaf dan y nefoedd. Yn ymarferol, os nid yn rammadegol, y mae yn llawer eangach na'r gair *Theistiaeth.*

iaeth mewn calon, a meddwl, a gweithred, mewn ffydd a gweddi, y puraf o addolwyr pur yr un a'r unig Dduw? A gwendid *Theistiaeth* ar wahan oddiwrth Grist, fel yr ymddengys i mi yw hyn, sef, er mor ogoneddus yw yn y cynllunwyriad, y mae yn ddiffygiol mewn cyfansawdd sylweddol; a'r cyfansawdd sylweddol yma y mae yn gael yn unigrwon Crist, fel ar unwaith ei chynnrychiolydd mwyaf teilwng a'i amddiffynwr mwyaf buddugoliaethus.

Yn awr, cawn fyned yn mlaen i gymmeryd dan ystyriaeth natur yr iechydwriaeth, mae ffydd yn yr Iesu yn osod ar ac yn gyfrann i ddynolryw yn gyffredin. Fel y mae yn cael ei derbyn yn gyffredin, nid oes un amheuaeth nad yw yn golygu Iechydwriaeth, neu ryddhad oddiwrth y dynged sydd yn dyneau ar warthaf dynolryw; oddiwrth ddedfryd o allrdiaeth hollol oddiwrth bob peth sydd gariadlawn a phur, trosglwyddiad i garcharagwyddol o anobaith, i gymdeithas y damnedigion, neu i gyfeillach ddiflyn eneidiau wedi eu dystrywio. Cymmerwch oddiwrth y pregethwr poblogaidd ei ddiafol a'i uffern, ac yr ydych yn ei ysgeilio, fel yr ymddengys i mi, o holl bwynt ac amcan ei efengyl. Beth, meddai ef, onid oes genyf yr un dinystr i'w fygwth? Yna, nid oes genyf yr un Iechydwriaeth i'w chynoeddi. Y pwll diwaelod gyda'i dduchrynfeydd ydyw y sylfaen ar yr hon yr wyf yn adeiladu fy oll; dyma ydyw colofn a safon fy ffyd. Dichon mai felly y mae yn bod, ond afresymol yw dywedyd wrtnym yn barnaus ar gyfrif hyny, nad oes genym ni yr un efengyl i ddynolryw. Oblegyd os yw yn newyddion da i'r fath ag i gael es deroyn, fod Duw wedi paratoi ffordd i ddianc rhag colledigaeth dragwyddol i ychydig, gwell newyddion o fil o weithiau yw nad oes le yn ngreadigaeth Duw'r Iesu i Ddiafol ac Uffern. Felly, os gwna ein gwrthwynebwyr ei wneyd yn brif bwnc eu hymffrost, eu bod hwy yn cyhoeddi fel newyddion da o lawenydd gogoneddus, Iechydwriaeth neu gadwedigaeth oddiwrth farwolaeth dragywyddol, bydd i ni eu gorchfygu gyda golwg ar hyd y nod hyn, oblegyd yr ydym yn pregethu Iechydwriaeth, nes gadwedigaeth rhag ei ofn.

Ond nid yw hyn ond chrio y maes er mwyalaw y wir Iechydwriaeth a gynnygiwyd i'r byd gan Iesu Grist, yr hyn yw nid cadwedigaeth rhag ofn y dynged, ond cadwedigaeth oddiwrth allu pechod. Oddiwrth ddrwg gwirioneddol presenol y mae ein ffydd ni yn ein rhyddhau, nid rhyw dynged dduyfodol ddychrynllyd. Nid Duw ein Tad ydym ni yn ei ofni a'i ddychrynu, nid ei farnau Ef, y rhai ydynt yn cael eu gweinyddu ar bawb mewn trugaredd, mewn doethineb, cariad a gwirioneddi, y dylem ni obeithio eu goenelyd. Nyni ein hunain a'n dyeithrwch, ein bywydau isel a diffrwyth, ein hunanoldeb a'n diogi, ein hamddifadrwydd o ffydd a chariad—dyma'r pethau sydd yn ein dirwasgu a'n hafonyddu ni; ac oddiwrth y cyfryw ydym am gael ein rhyddhau.

Edrychwn ar y byd o'n hamgylch, ac yno gwelwn feddwdod, rhyseddwaith, ac eithafion afradlonedd, yn gwneyd canol nos yn echryslon, a golau dydd yn dywyllwch. Pan edrychom o'n mewn, cawn mewn blaguryn o leiaf, egwyddorion y drygau hyny yr ydym yn gollaw o'u plegyd oddiallan.

Edrychwn ar Grist, ac yno canfyddwn ardderchogrwydd a gorwychder rhinwedd dynol pur; y mae Efe yn nodi allan neddfa sier a pharhaus yn nghadwriaeth yr Hollalluog Dduw, gan yr hwn, pan yn agoshau ger ei fron gydag ymddiried mabaidd, mewn amynedd a gweddi, y cawn brofi dosturi mwy na'n ffaeleddau, a chymhorth digonol i ddiwallu ein hangenion dyfnaf. Dywedwch, onid yw hwn yn lechydwriaeth wir deilwng o'r enw?

L.

WRTH Y DRWS.

"Pwy ydyw hwn sy'n curo mor daer wrth borth y nef?"
"Gadewch im' ddod i fewn, iawn-ffyddiog wyf," medd ef.
"Pa beth y'ch wedi wneuthur dros ddynion neu dros Dduw,
Mewn gair neu mewn gweithredoedd oddiar 'n y byd yn byw?"
"Paham yn nghylch fy ngwaith y gofynwch imi, ah?
'Rwy'n wastad yn pregethu'r hen gredo dduwiol dda;
Dros Galfin 'rwyf yn sefyll yn ddyfal a'm holl nerth,
Ac hefyd dros yr arfaeth, ac uffern fawr ei gwerth.
Gan gauad drws y nefoedd ar bawb ag ydynt drist,
Yn gwrthod geiriau Paul, apostol Iesu Grist.
Gweddio 'rwy'n rheolaidd, ymprydio'n ddigon prudd.
Ac nid wyf byth yn gwenu ar y sanctaidd Sabbath ddydd;
Nid heretic wyf sy'n curo mor daer wrth borth y nef.
Gadewch im' ddod i fewn, iawn-ffyddiog wyf!" medd ef.
Y porth a gauwyd genych chwi yn erbyn unrhyw ddyn
Led llaw ni egyr hwnw i chwi yn unrhyw lun.

Un bechodd, ond a wylodd yn chwerw, chwerw iawn,
Pechadur wedi ei faddeu yw'r porthor yno gawn;
Rhai fel efe yn unig gânt fyn'd i mewn i'r nef,
Rhai fel efe mae'r Meistr yn eu galw ato Ef.

New York Independent.

Nid yw y llinellau uchod yn rhagori fel barddoniaeth: ond y maent yn deilwng o sylw am eu syniadaeth, ac am eu bod wedi ymddangos yn mhrif bapyr yr Annibynwyr yn America.

Gohebiaethau.

Gweithiau y Parch. W. Thomas.—Yr ydwyf wedi bod yn meddwl er ys llawer dydd a ydyw ddim yn bosibl i ni gael cyhoeddiad mor gyflawn ag y gellir o waith y diweddar Wm. Thomas, M.A. Yr wyf wedi dysgwyl cael gwel'd darnau o'i waith yn yr Ymofynydd o fis i fis; ond mor bell ag y gwn i, nid oes dim wedi ymddangos. Yr wyf yn meddwl mai trueni yw fod gwaith mor ardderchog yn cael ei gadw dan gudd. Nid wyf yn meddwl llai nad hyn

ydyw teimlad cannoedd, os nid miloedd, o Undodiaid Cymru. Ni fyddai dim a'm boddlonai yn well nâ gwel'd rhyw gynllun yn cael ei fabwysiadu tuag at gyhoeddi ei weithiau. Os na ellir eu cael yn llyfr, paham na ellir eu cael yn fisol yn yr YMOFYNYDD. Gobeithio y cymmer rhywrai galluocach nâ mi sylw o hyn, a threfnu rhyw foddion tuag at ei ddwyn oddiamgylch. Y cyntaf peth allaswn i feddwl fyddai oreu ydyw anfon at Mrs. Thomas yn nghylch hyn. Ac nid wyf yn meddwl na chydsynia hi gyda phob ewyllys i wneyd ei goreu. Byddai ei weithiau fel hyn yn gaffaeliad mwy gwerthfawr, ac yn goffadwriaeth mwy parhaus, nâ dim arall a ellir gael mwy. Byddai, "er wedi marw," yn llefaru etto. Yr wyf yn appelio at weinidogion yr Undodiaid, os byddant mor garedig â gwneyd eu goreu yn hyn o beth. Gobeithio y caf wel'd rhywbeth etto ar hyn.—AP DAFYDD.

Fel hyn yr ysgrifena "Un o'r hen ysgol :"—Os caniatewch trwy gyfrwng yr YMOFYNYDD, i mi ofyn i'r rhai sydd yn ymarfer â'r gair *gweddillion* wrth roddi hanes claddedigaethau y meirw—"claddwyd ei weddillion," meddent. Carwn yn fawr gael gwybod ganddynt beth maent yn feddwl wrth "weddillion" dyn? A ydyw yn air ysgrythyrol? Os ydyw, pa le y mae? Yr ydym yn cyhuddo ein brodyr Trindodaidd am arfer geiriau anysgrythyrol, sef "Trindod, fel yr oedd yn Dduw, ac fel yr oedd yn ddyn." Yr ydys yn right am hyny hefyd; oblegyd yr ysgrythyrau yw y sail. "Ac ynddynt hwy yr ydym yn meddwl cael bywyd tragywyddol." Os oes rhyw ran o ddyn yn myned i wae neu wynfyd yn uniongyrchol ar ol marw, pa eisieu son cymmaint am adgyfodiad a dydd barn sydd? Os felly mae, yr wyf fi yn colli fy ngolwg ar y ddau gyfnod hwnw. Mae yr ysgrythyr yn dweyd mai huno wnaeth y tadau. Mae Iesu Grist yn dweyd mai huno oedd Lazarus, er ei fod bedwar diwrnod yn y bedd; a phan gafodd ei ddihuno, ni ddywedodd un gair am un o'r ddau gyflwr wrth neb. Y mae J. D., W. J., a rhai ereill o bregethwyr Undodaidd yn ffansiol o'r gair *gweddillion*. Am gael ychydig o oleuni ar y pwnc wyf, nid dadleu, os oes goleuni hefyd, pellach na fod y blwmen wedi myned i'r llawr, a'r bendilo yn ffaelu rhifo'r amser. Fe ofala Duw am gorff cymhwys ac addas i ni yn y dyfodol, fel y gwnaeth yn y presenol. Gofalwn ninau am gymmeriadau dysglaer a da, fel y caffom fynediad helaeth i mewn i'r trigfanau dedwydd.

PATAGONIA.—Yn ol y newyddion diweddaraf, y mae y sefydliad uchod mewn sefyllfa lwyddiannus, a'i rhagolygon yn hynod obeithiol. Nid yn unig y mae y Llywodraeth wedi ymddiried llywodraethiad y sefydliad yn llwyr i'r Gwladfawyr, ac wedi caniatau dysgu yr iaith Gymraeg yn yr ysgolion dyddiol cenedlaethol; ond yr oedd y cynauaf diweddaf yn llwyddiant perffaith—50,000 o *fanegas*, medd y *Buenos Ayres Standard* am Mawrth 13 (pob *fanega* yn 225 pwys, ac yn werth punt yn Buenos Ayres), a phob peth arall yn llwyddo yn gyfatebol, fel nad oes ofn methiant mwy.

Mewn llythyr a dderbyniasom oddiwrth y Parch. W. Williams, dyddiedig Mawrth 13, dywed fod y cynhauaf diweddaf yn ardderchog—6 mil o erwau o wenith da; tra mai 2 fil yw y mwyaf o'r blaen, a bod parotoi ar gyfer o 12 i 20 mil y tymhor nesaf, heblaw llawer o lysiau ereill y teimlir yn sicr y gellir eu codi yno—fod yno angen mawr am chwaneg o bobl, ond eu cael yn rhai all weithio, yn enwedig dynion ieuainc a genethod.

Yr oeddynt yr wythnos flaenorol wedi darganfod gwythienau mawrion o lo yn y gymmydogaeth mewn man cyfleus yn agos i'r môr—un haen yn 3 troedfedd, arall yn 4, a'r llall yn 15. Glo o'r fath oreu yn ol tystiolaeth y glowr mwyaf profiadol, peth o hono wedi bod yn ei law y dydd blaenorol. Hefyd fwnau haiarn, copr, ac aur, y gall dyn ennill o 10s. i 15s. y dydd wrth yr aur. Dywed, "Pawb sydd am dir yn awr am dani," am y bydd darganfyddiad y mwnau hyn yn sicr o osod gwerth mawr ar diroedd sydd yn awr i'w cael am ddim. Gyda hyny, y mae yno awydd mawr i fyned rhagddynt i ddechreu sefydliad newydd yn Mansanas—gwlad yr afalau—Paradwys Patagonia—a lleoedd ereill. Yr hyn sydd yn angenrheidiol yw cael digon o yspryd penderfyniad ynom fel cenedl i godi fel un gwr i feddiannu y wlad a'i manteision a'i thrysorau, fel ag i ni godi ac ymddadblygu etto yn genedl fawr lwyddiannus yn y gororau hyfryd hyny.

J. B. EVANS.

Yr ydym wedi derbyn yr ateb canlynol i un o'r penderfyniadau a basiwyd yn Nghyfarfod y Pasg. Gweler yr YMOFYNYDD, tudalen 110.

"11, *Church Road, Brixton, Rise, S.W.*
May 9th, 1883.

MY DEAR SIR,

"I have to inform you that I laid before the Presbyterian Board at their Monthly Meeting on Monday, May 7th, the Resolution you forwarded to me respecting Carmarthen College, adopted at the recent Easter Meeting of the Unitarian Ministers of South Wales.

"I am instructed by the Board to acknowledge the receipt of the Resolution and to say that the important subject to which it refers will have their careful consideration when the occasion arrives.

"I remain yours very sincerely,
"THOS. L. MARSHALL, Secretary.

"I beg to add, unofficially, that suggestions and expressions of opinion of the kind conveyed in your Resolution seem to me very valuable.

"*Rev. R. J. Jones, M.A., Aberdare.*"

Manion a Hanesion.

Y NAPOLEON cyntaf oedd enedigol o Corsica, lle y gwnaeth ei ymddangosiad yn ol yr hanes cyffredin Awst 15, 1769, yr un flwyddyn â'r Duc Wellington, ei wrthwynebydd dewr, yr hwn a anwyd Mai 1af. Dywed rhai, fodd bynag, ond nis gwn ar ba awdurdod, fod Napoleon wedi ei eni cyn hyny, a'i fod wedi ffugio amser ei enedigaeth er mwyn gwneuthur ei hunan yn Ffrancwr. Yr oedd yn hanu o deulu Tuscanaidd nodedig am eu dysg a'u talent. Yn 1768 y daeth Corsica yn feddiant i Ffrainc; perthynai cyn hyny i Genoa. Os perthynai Corsica i Genoa pan anwyd Napoleon, nid oedd yn Ffrancwr o ran lle genedigaeth nac o ran haniad teuluol.

YN *Seren Gomer* am 1831, ymddangosodd pregeth o waith y Parchedig Thomas Griffiths (Tau Gimel), ar y testyn: "Y tadau, pa le y maent hwy," &c. Mae yr ail ran sydd yn rhifyn Mai ger fy mron; ond nid wyf wedi gweled y rhan flaenaf. Pe gellid dyfod o hyd i'r oll, yr wyf yn meddwl y carai darllenwyr yr YMOFYNYDD weled argraffiad newydd o honi.

ODID mai ychydig o ddarllenwyr yr YMOFYNYDD a wyddant am y ddadl a gymmerodd le ar faes *Seren Gomer* 1832 rhwng y Parch. J. E. Jones, Penybont-ar-Ogwy, â'i gyfaill a'i gymmydog y Parch. W. Jones, Coyty, gerllaw Penybont, ar rai o bynciau y ffydd, Duwdod Crist, &c.

Y FFORDD i ddyfod yn hen yw bod yn gynil o fywyd. Paid gwastraffu dy fywyd, frawd.

GOBAITH CRISTIONOGOL.

'Rwyf yn dy weled etto:
Nid wyt yn gyfyngedig yn y bedd—
Ni rwyma'r angeu dy anfarwol wedd;
Mae'th ludw sanctaidd dan y ddae'r yn [nghudd;
Ond nid yw'r da yn marw yn y pridd.
Tydi, fy nghâr! na, nid tydi
Dan glawr yr arch a welaf fi;
Tydi a flaenaist tua thecach gwlad;
Ac yno, meddai ffydd,
'Nol gorphen yma'm dydd,
Yr Arglwydd âd
I mi dy weled etto.

EPITAPHIUM.

Scriptum super tumulum navitæ.

Mundus mare, Vita navis
Quisque navigat, Mors portus.
Patria coelum Fidelis intrat,
Fides ubique Civitatem donat.—B.V.

Yn Saesoneg.

The world's a sea, our life a goodly ship,
We are the mariners and death the port;
The country's heaven, the faithful enter [there;
A city, faith on all that come bestows.—N.R.

Yn Gymraeg.

Môr yw'r byd a llong yw bywyd,
A'r dwylo arni yw dynol ryw,
Angeu yw'r porthladd nef yw'r ddinas
Lle caiff ffyddolion fythol fyw.—C.
Allan o "Lleuad yr Oes," Chwef. 1827.

Bu farw y Parch. T. B. W. Briggs, gweinidog yr Undodiaid yn Dover, yn ddisymwth iawn dydd Sul, Ebrill 1. Wedi gorphen ei bregeth nos Sul, gwelwyd fod rhywbeth allan o le arno, ac helpiwyd ef allan i'r festri, lle y bu farw cyn pen hanner awr. Ei destyn oedd Eph. iii. 7. Ymsefydlodd yn Dover yn 1847, ac ennillodd barch a dylanwad mawr yno. Bedyddiwr Undodaidd oedd.

Yr ydys newydd gyhoeddi "Dyddiaduron a Bywyd" yr hen Buritan enwog Philip Henry, tad Matthew Henry yr esponiwr. Cymro o Briton Ferry oedd tad Philip Henry, ac yno y ganwyd yntau Awst 24, 1631. Rhoddir cymmeradwyaeth uchel iawn i'r llyfr gan y newyddiaduron.

Mae pob argoelion yn awr fod y cyfarfod mawr a gynnaliwyd yn Lerpwl, flwyddyn yn ol, yn debyg o esgor ar ffrwyth gwerthfawr. Un peth fu dan sylw y cyfarfod hwnw oedd "Sefyllfa ein Gweinidogaeth;" a darllenwyd papyr gan Mr. Harry Rawson, yn yr hwn y dangosodd fod cyflogau ein gweinidogion yn druenus o isel. Penderfynwyd ar unwaith i wneuthur ymdrech i'w gwella; a'r canlyniad yw, fod eisoes dros *ddeng mil o bunnau* wedi eu tanysgrifio at y pwrpas hwnw. Nid yw y llog oddiwrth hyny yn cael ei ystyried yn ddigonol; ond os gellir chwyddo y deg yn *hanner can' mil*, gellir cyrhaedd yr amcan sydd mewn golwg: helpu i osod ein gweinidogion uwchlaw angen, yr hyn y mae llawer iawn o honynt yn bresenol yn mhell iawn o fod. Mae rhai wedi tanysgrifio yn dda, rhai fil, rhai bum cant, ac ereill wrth gwrs lai. Carem weled ein cyfoethogion Cymreig yn cymmeryd y pwnc i fyny. Enw Mr. C. H. James, A.S., am £250, yw yr unig un yr ydym wedi weled hyd yn hyn. Pa le mae ein casgliadau cynnulleidfaol? Gweler Ymofynydd Mai, tud 110.

Ganwyd Huig de Groot, neu fel yr adwaenir ef fynychaf yn ein gwlad ni, Hugo Grotius, dydd Sul Pasg, Ebrill 12, 1583.

Mae yr esgobion wedi bod yn talu cryn lawer o sylw i'r *Salvation Army* yn ddiweddar, ac wedi dyfod i fath o benderfyniad hannerog nad yw yn iawn iddynt roddi eu cymmeradwyaeth i'r mudiad. Ni chaiff y penderfyniad fawr dylanwad un ffordd na'r llall. Bydd yn dra thebyg feallai yn ei ganlyniadau i'r penderfyniadau yn nghylch y tywydd.

Fel hyn y mae y Parch. Bryan King yn ysgrifenu i'r *Church Times:* "Nid oes neb yn cyfranu mor ychydig at gynnaliaeth eu crefydd ag aelodau yr Eglwys Sefydledig."

Call pob ffwl tra tawo. Mae hanner owns o "gau dy geg" yn well na dau bwys o esponiad ar ol llefaru.

Y Llyfr Gweddi yw Beibl yr Eglwyswyr, a'r Beibl yw Llyfr Gweddi Annghydffurfwyr.

Yr oedd y rhif luosocaf o'r offeiriaid yn erbyn yr *Affirmation Bill*, fel y maent wedi bod erioed yn erbyn pob mesur o gyfiawnder i ereill; y Wesleyaid yn *neutral*; a'r enwadau ereill yn bleidiol iddo.

Rhif eglwysi y Bedyddwyr Cymreig yn America yw 70, a rhif y gweinidogion, 63.

Bu farw plentyn bach yn Paddington ychydig yn ol trwy yfed *gin*.

Dywed R. W. Proctor, y seryddwr enwog, mai syniad camsyniol iawn yw yr un fod efrydwyr gwyddoniaeth yn amddifad o grefydd ac yn elyniaethus iddo. Nid ydynt y naill na'r llall. Tybia ef eu bod ar y cyfan yn fwy crefyddol na'r rhai nad ydynt efrydwyr gwyddoniaeth.

"Fy ewyllys i, ac nid yr eiddot ti a wneler," a drodd Baradwys yn anialwch. "Dy ewyllys di, ac nid yr eiddof fi a wneler," a drodd yr anialwch yn Baradwys, ac a wnaeth Gethsemane yn borth y nefoedd.—*Dr. Pressense.*

"Pa fath blant bach oedd yn myned i'r nefoedd?" meddai athraw yn yr Ysgol Sul wrth ei ddosparth. Daliodd un bach pedair oed ei law i fyny. "Wel," meddai'r athraw, "rhowch glywed eich ateb." "Rhai wedi marw," meddai'r bach ar dop ei lais.

Hawddach tynu tŷ i lawr na'i adeiladu; ac mae'r duwinydd sydd yn ei wneuthur yn brif hyfrydwch iddo ei hun i dynu tai pobl ereill i lawr yn un a gaiff allan yn gynnar neu yn ddiweddar, y byddai yn rheitiach gwaith iddo i dreulio ei amser yn adeiladu dyogelfa iddo ei hun.—*Morning Light*, papyr y Swedenborgiaid.

Yr hwn a fyno ein dysgu i garu yr annghariaidd a fyn ein harwain i wlad lle nad yw yr haul yn machlud byth mwy.—*Francis Power Cobbe.*

Cael ein gorchfygu? Nid yw ond rhan o'n haddysg—y cam cyntaf at rywbeth gwell.—*Wendell Phillips.*

Gofynwyd i ferch fach "Paham y darfu i'r Israeliaid wneuthur llo aur?" Atebodd hithau "Am nad oeddganddynt ddigon o ddefnydd i wneuthur buwch."—*Unity.*

Gofynwyd i weinidog y Bedyddwyr sut y caniataodd i'w ferch briodi Presbyteriad. "Wel, meddai yntau, "mor bell ag yr wyf fi wedi cael allan, nid yw Ciwpid erioed wedi 'studio Duwinyddiaeth."

NID oes dim yn burach na gonestrwydd, dim yn felusach nâ charedigrwydd, dim yn wresocach nâ chariad, dim yn gyfoethocach nâ doethineb, dim yn ddysgleiriach nâ rhinwedd, na dim yn fwy diysgog na ffydd.

Os arllwysa dyn ei bwrs i'w ben, ni all neb ei gymmeryd oddiarno. *Investment* o wybodaeth yw yr un sydd yn wastad yn talu y llog uwchaf.—*Franklin.*

"ASSYRIOLOGY" yw enw llyfr o waith ein cyfaill Mr. George Evans, M.A., Caerfyrddin, yr hwn sydd wedi ei gyhoeddi ar draul yr *Hibbert Trustees.*

DYMA rai o eiriau Robert Collyer yn angladd y cyfoethog a'r haelionus Peter Cooper. Yma gorwedd un na fu erioed yn berchen *dollar* na feiddiai fyned ag ef gydag ef at yr orsedd wen fawr; ac os wyf wedi myned at galon ei hanes, na fu mewn dyled erioed o un *dollar* na allai dalu.

YR ISCA.—Cynnaliodd y Parch. J. J. George, o Aberdar, y gwasanaeth Undodaidd cyntaf erioed yma, Mai 6. Yr oedd tua chwech ugain yn bresenol.

PHŒNIX PARK.—Ystyr y gair *Phœnix* yn y cyssylltiad yma yw *Gwyn-dâwfr*—llygriad yw o'r ddau air *Fion-uisge.*

ABERDAR—Treuliodd rhwng 40 a 50 o bobl yr Hen Dŷ Cwrdd, Llun y Sulgwyn yn Ystradfellte. Yr oedd y dydd yn deg, a chafwyd llawer iawn o hyfrydwch yno.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynnaliwyd cyfarfod cyntaf Undeb Ysgolion plwyf Llandyssul a'r cylch yn y capel newydd ar y Sulgwyn. Fel oedd gwaethaf y ffawd, trodd llawer o bethau yn anffafriol i lwyddiant cyflawn y cyfarfod. Dygwyddodd yr hin yn ystod y boreu i fod yn anghyffredin o wlyb ac ystormus. Rhwystr odd hyny lawer o aelodau y gwahanol ysgolion i fod yn bresenol, a bu yn foddion i gadw Ysgol Llandyssul i gyd gartref. Hefyd, methodd y Parch. Thos. Thomas â bod yn bresenol. Yr oedd yn Sul cymmundeb yn Capelygroes; ac er gwneyd cryn ymdrech, ni lwyddodd i gael neb i lanw ei le. Felly, syrthiodd holl faich yr holi ar y Parch. W. James. Rhwng pobpeth, teimlid hytrach yn ddigalon ar y dechreu; ond wrth fyned yn mlaen, yr oedd y gynnulleidfa yn cynnyddu, a gerwindeb y tywydd yn cael ei anghofio yn nyddordeb y gwaith oedd mewn llaw. Aeth y tair ysgol trwy eu gorchwyl yn rhagorol; a thystiolaeth pawb oedd fod canu y côr undebol, o dan arweiniad Mr. E. Jones, uwchlaw dysgwyliadau y rhai mwyaf gobeithiol. Y tônau a ddewiswyd oedd Salome, Eaton, Aberdar, Brondeifi, Moab, Eifionydd, a'r Hen Ganfed. Canwyd Eifionydd mewn modd rhyfedd o effeithiol a thoddedig. Cyfarfod cyntaf oedd hwn, a diamheu fod lle i wella. Gobeithiwn y bydd amgylchiadau yn nghyd ag ymdrechion y gwahanol ysgolion yn cydweithredu i wneyd y cyfarfod nesaf yn llwyddiant cyflawn yn mhob ystyr.

PRIODAS.

Ebrill 20, yn nghapel Rhydygwin, trwy drwydded, Mr. John Jones, Hendrelas, â Miss Margaret Evans, Aeron Villa (gynt), Glanwern—y ddau o blwyf Ystrad. Yn gweinyddu ynddi yr oedd y Parch. Wm. Rees, Rhydygwin; B. Phillips, Ty'ngwndwn, a T. Jones, Parkyrhos. Hir oes a iechyd fyddo i'r pâr ieuanc hwn yw ein dymuniad.—*Goh.*

Marwgofion.

Mawrth laf, yn 15 mis oed, William, mab David a Letticia Davies, 28, Ivor Street, Dowlais. Claddwyd yr un bychan yn nghladdfa Ymneillduol Pantcadifor. Gweinyddwyd yn y ty gan Mr. Ebenezer Morgan, ac yn y gladdfa gan y Parch. Wm. J. Davies, gweinidog yr Undodiaid yn Nowlais.

Mawrth 15, yn 32 oed, Thomas Davies, saer, 28, White Street, Dowlais. Gadawodd wraig a merch fechan, rhieni a nifer o chwiorydd, i alaru ar ei ol. Aeth yr ymadawedig at ei waith y diwrnod hwnw fel arferol; ac ar ei waith yn dyfod allan o un o'r cerbydau sydd yn cludo y glowyr, syrthiodd dan yr olwynion, a bu farw mewn eiliad. Y Sadwrn canlynol, casglodd tyrfa anarferol mewn rhif i'w angladd. Claddwyd yn nghladdfa Ymneillduol y

Pant. Cyflawnwyd y gwasanaeth anggladdol gan Mr. W. J. Davies, gweinidog yr Undodiaid yn y lle. Ar lan y bedd, gwnaeth Mr. Davies sylwadau pwrpasol iawn mewn cyssylltiad â'r ddamwain bruddaidd a ddaeth i gyfarfod â'r ymadawedig. Mab ydoedd Thomas Davies i Timothy a Sarah Davies, Cribin Hill, Llanwenog. Tra yn yr ardal hono, arferai â myned i addoli i Gapelygroes; ac yr oedd bob amser yn siarad yn barchus iawn am y gynnulleidfa hono a'i gweinidog dysgedig, y Parch. T. Thomas. Wedi iddo sefydlu yn Nowlais, ymunodd a'r gynnulleidfa fechan o Undodiaid sydd yn y lle; ac yn ei farwolaeth ef, collodd yr eglwys ieuanc hon aelod ffyddlon a gweithgar. Yn mhob achos da, y cyfarfodydd rheolaidd yn y capel, y cwrdd gweddi, neu yr ysgol gân, nid oedd ei le ef yn wag ond yn anaml. Nid Laodicead oedd, ond un yn dangos yn weithredol ei fod yn credu yr ymadrodd, "Pa beth bynag yr ymafi dy law ynddo i'w wneuthur, gwna â'th holl egni."

Mawrth 20, Sarah Ellen, merch John a Rachel Jones, Ffynnonddewi, yn 8 diwrnod oed. Claddwyd y fechan yn Capelygroes.

Mawrth 23, yn bedair blwydd oed, Anne, merch David a Jane Thomas, 6, Libanus Street. Dowlais. Y dydd Llun canlynol, claddwyd yr un fechan yn nghladdfa Ymneilldiol y Pant. Yn y ty dyn cychwyn, darllenwyd a gweddiwyd gan y Parch. J. H. Davies, Cefncoed, a gweinyddwyd yn y gladdfa gan y Parch. Wm. J. Davies, Dowlais. Plentyn tlws iawn, a ffraethbert i'w ryfeddu, oedd Anne fach, ac yn feddiannol ar gof rhagorol fel yr oedd (*er yn ifanc*) i adrodd amrywiol ranau o'r ysgrythyrau, a hyny gyda chywirdeb mawr; a diau genym pe cawsai fyw, y deuai yn ddynes dra deallus.

Mawrth 29ain, yn 7 oed, James, mab James a Mary Davies, Celynen, ger Castellhywel, Llandyssul. Claddwyd yn Llwynrhydowen y dydd Sadwrn canlynol. Gweinyddwyd yn yr angladd gan W. J., yr hwn a wnaeth ychydig sylwadau yn y ty cyn cychwyn oddiar Job x. 22, "Cysgod angeu, a heb drefn."

Ebrill 29ain, o ennyniad yr ymhenydd, yn 32 mlwydd oed, Margaret, priod ffyddlon Mr. W. Jones, Ochr, ger Tregaron, a merch Mr. a Mrs. Jenkins, Trecefel. Y dydd Iau canlynol, ymgasglodd tyrfa i'w hebrwng i "dy ei hir gartref" yn mynwent Tregaron. Cyn cychwyn o'r ty, darllenwyd rhanau o'r ysgrythyr, a gweddiwyd gan y Parch. John Davies, Alltyplaca, a phregethwyd yn yr eglwys yn ddwys iawn gan yr offeiriad, oddiar y geiriau cyfarwydd hyny, "Yr Arglwydd a roddodd." Fel hyn y gwnaed mewn cyssylltiad â chladdedigaeth un o'r menywod hawddgaraf a gafodd yr ysgrifenydd y fraint o'u cyfarfod hyd lwybrau bywyd yn y byd hwn erioed. Anwyliaid galarus! codwch eich golygon uwchlaw cymmylau amser, a gorphwyswch ar y cariad sydd yn amdoi'r bydysawd.

Ebrill 30, yn 73 oed, Mary, gweddw Mr. John Jones, Fferyllydd, Commercial St., Aberdar. Bu farw yr hen wraig yma yn dra disymwth. Yr oedd yn y cwrdd ar y 22ain, ac yn ymddangos yn ei hiechyd arferol. Hen wraig siriol a serchog, dawel a hapus iawn, oedd Mrs. Jones, un y gwelir ei heisieu mewn llawer cylch. Bydd llawer i hen wraig yn llwmach o'i cholli. Ni ddarfu iddi oroesi ei gwr ond rhyw 16eg mis i gyd; ac yn ystod yr amser hwnw, yr oedd wedi byw llawer yn ei gymdeithas; carai siarad ei siarad, a meddwl ei feddyliau; gweddio ei weddiau, ac adrodd ei hoff emynau. Hoff iawn ganddynt oedd 79 a 148. Er dangos ei thymher hapus, adroddir yr hanesyn canlynol: O herwydd rhyw amgylchiad neu gilydd, yr oedd myfyriwr (iawnffyddiog) yn gwasanaethu yn y capel; ac wedi myned dros ei holl dduwinyddiaeth, o'r codwm yn Adda hyd y codi yn Nghrist, a dangos yr angenrheidrwydd o dderbyn ei esponiad ef o gynllun iachawdwriaeth, yr oedd y gwyddfodolion, y rhan amlaf o honynt, yn teimlo yn flin; nid felly, fodd bynag, Mrs. Jones; ei theimlad hi oedd teimlad o ddiolchgarwch i Dduw ei bod wedi ei dwyn i fyny yn y syniadau Undodaidd.

MARWOLAETH

Miss Rachel Morgan, merch Mr. E. Morgan (Ab Tybie), Llandybie, Hydref 16, 1882, yn 15 mlwydd oed.

Hunodd yn mlodau'i heinioes;—er marw,
Moriodd uwch pob drygloes
I'w diogel wlad—gwywol loes,
Gwelwi ni wna'i theg eil-oes.

Tithau, fardd, os ydwyt weithion—yn drist,
Gwna droi fry'th olygon,
I weled serch dy galon,
Ger gorsedd hedd, ddwyfol Ion.

Dyffrynfardd.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, &c., ABERDAR.

AT EIN DERBYNWYR.

TALIADAU.—W.L., Pontypridd; E.T., Bwlch; D.T., Treorky; W.J., Cwmbach; J.E., Blaenffos; M.T., Llangorse Villa; T.J., Alltyplaca; W.G., Pontyberem; J.L., Dowlais; W.D., Cwmavon; J.J., Llandyssul; S.E., Frowen; D.J., Ciliau; T.L., Cowbridge; E.J., Ceginan; H.J., Blaengwrach.

☞ Tyner pob *Post Office Order* ar y *Mill Street* Post Office, ac yn enw R. J. Jones, Editor, &c. Cofier, fodd bynag, fod y *Postal Orders* weithiau yn rhatach nâ'r *Post Office Orders.* Fe ddylid bob amser defnyddio *Postal Orders* yn lle *stamps* mor bell ag y gellir.

TELERAU :—Pris 3c., trwy'r post 3½c.; ar dri rhifyn a throsodd telir y cludiad.

☞ *Anfoner pob archebion a gohebiaethau at*

THE EDITOR OF "YR YMOFYNYDD,"
IVY COTTAGE,
ABERDARE.

EIN LLYFR EMYNAU.

Gwerthir ef am ddeunaw ceiniog mewn papur hyd y cyntaf o Orphenaf. Cyst ragor ar ol hyny.

CAPEL NEWYDD LLANDYSSUL.

Derbynir y rhodd leiaf at yr achos uchod, a chydnabyddir yn ddiolchgar ar yr amlen hon gan yr Ysgrifenydd—*Rev. W. James, B.A., Cerdin Villa, Llandyssul, S. Wales.*

TANYSGRIFIWYD A SICRHAWYD EISOES.

	£	s.	c.
Cydnabyddwyd eisoes	269	2	0
Evan Lloyd, Clettwr Side, Llandyssul..	0	10	0
Mary Evans, Ty'rdref, do. ..	0	5	0
John Davies, Porth Hotel, do.	0	5	0
Mrs. M. Davies, Groesffordd, Llanfihangel	0	10	0
Messrs. Davies a'r Misses Davies, Bwlchog, do. ..	5	0	0
Dd. Titus, Quarry, do. ..	0	10	0
Mrs. A. Rees, Clifton Street, Llandyssul	1	0	0
Miss Jones, Nantyrymenyn, do.	1	0	0
Mrs. J. D. Thomas, Richmond House, do.	5	5	0
Mrs. M. Jones, Rhydowen, do.	0	5	0
Thos. Davies, Drenewydd, do.	0	3	0
John James, Gelligron, do...	1	0	0
Sarah Jones, do., do.	0	5	0
Mrs. E. Evans, do., do. ..	0	5	0
Evan Jones, Carpenter, do..	0	5	0
John Jones, do., do.	0	2	6
Elizabeth Jones, Gelligron, do	0	2	6
David Evans, Penrhiw.. ..	0	5	0
Mrs. M. Jones, Moelhadog Isaf, do.	0	5	0
James Jones, Moelhadog, do.	0	10	0
John Jones, Camnantfach, do.	1	0	0
Mrs. A. Jones, Felin Rhydowen, do.	0	7	6
Thos. Jones, Pentre' Rhydowen, do.	0	2	6
Jas. Jones, Rhydowenfach, do	0	10	0
Dl. Evans, Pencwarre, do. ..	0	2	6
Mrs. J. Jones, Lodge, do. ..	0	5	0
Mrs. M. Jones, Llwyn.. ..	0	2	6
D. Thomas, Rhydowen Shop, do.	3	0	0
Miss Thomas, do..	1	10	0
Dd. Lewis, Rhydowen, do. ..	0	2	6
Dd. Evans, Draper, &c., Pontshan, do.	1	0	0
Evan Jones, Clettwr Arms, do	0	5	0
David Rees, Clettwr Mill, do.	0	6	0
Mrs. S. Jones, Penwalke, do.	0	2	6
Rev. Thomas Thomas, Pantydefaid, do.	1	0	0
Mrs. Thomas Thomas, do. ..	1	0	0
Rees Evans, Maesisaf, Llanybyther	1	1	0
John Davies, Abercwm, do.	1	0	0
Evan Davies, Cellan, Lampeter	0	10	0
Daniel Jenkins, Glanwern, Ystrad	1	0	0
Mrs. Davies, Neuadd Arms, Lampeter	0	5	0
Ed. Jones, Ceginan, Llandyssul..	1	0	0
"Cyfaill"	0	10	0
Symiau o dan 2s. 6c.	0	18	0

W. JAMES (YSGRIFENYDD.)